

# **Trais yn y Cartref**

Canllaw i Rwymedïau Sifil a  
Chosbau Troseddol

February 2003 (reprinted March 2007)

Domestic Violence  
A guide to civil remedies and  
criminal sanctions  
Welsh



## **Cynnwys**

<b>Rhagair</b>	<b>1</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>RHAN 1: RHWYMEDÏAU SIFIL</b>	<b>4</b>
<b>Rhan IV o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996</b>	<b>4</b>
<b>Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 (sifil)</b>	<b>17</b>
<b>Deddf Partneriaeth Sifil 2004</b>	<b>19</b>
<b>Deddf Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr 2004</b>	<b>19</b>
<b>RHAN 2: PLANT</b>	<b>21</b>
<b>Deddf Plant 1989</b>	<b>21</b>
<b>Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002</b>	<b>21</b>
<b>Deddf Plant 2004</b>	<b>21</b>
<b>Deddf Plant a Mabwysiadu 2006</b>	<b>22</b>
<b>RHAN 3: COSBAU TROSEDDOL</b>	<b>233</b>
<b>Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 (troseddol)</b>	
<b>Deddf Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr 2004</b>	<b>333</b>
<b>Rhan 4 – Darpariaethau Cysylltiedig Eraill</b>	<b>357</b>
<b>Deddf Tai 1996</b>	<b>357</b>
<b>Cynlluniau Noddfa</b>	<b>357</b>

<b>Statws mewnfudo ac arian cyhoeddus</b>	<b>357</b>
<b>Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 - trais yn y cartref ac iechyd</b>	<b>368</b>
<b>Deddf Addysg 2002</b>	<b>368</b>
<b>Atodiad A: Pwy sy'n berson cysylltiedig?</b>	<b>38</b>
<b>Atodiad B: Mesurau arbennig ar gyfer tystion diamddiffyn neu dystion sydd wedi cael eu bygylu</b>	<b>41</b>
<b>Atodiad C: Rhestr termau</b>	<b>42</b>
<b>Atodiad Ch: Ffynonellau cyfeirio a darllen pellach</b>	<b>47</b>

## Rhagair

Mae'n bleser gan Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi gyhoeddi'r fersiwn diwygiedig hwn o'r Canllaw a lansiwyd yn gyntaf yn 2003. Mae'r Canllaw newydd yn adlewyrchu'r newidiadau a ddaeth yn sgîl Deddf Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr 2004, ymhlith pethau eraill.

Rydym hefyd wedi cynhyrchu DVD '*You Don't Have to Live in Fear*'. Mae'r ffilm yn ceisio rhoi darlun cliriach i'r rhai sy'n gwneud cais am waharddebau sifil yn y llysoedd teulu drwy gyfweiliadau ac ail-greu. Mae hefyd yn ceisio dangos i ddarparwyr gwasanaethau i ba raddau y gall trais yn y cartref effeithio ar unigolyn a'r teulu a bywyd cymunedol.

Gobeithio y bydd y ffynonellau cyfeirio hyn yn parhau i fod o ddefnydd i unrhyw un sy'n darparu gwasanaethau a hyfforddiant yn y maes hwn.

Mae trais yn y cartref yn effeithio ar deuluoedd cyfan ym mhob dosbarth cymdeithasol ac yn eu niweidio. Mae'r effeithiau yn bellgyrhaeddol nid yn unig i'r teuluoedd dan sylw ond i gymdeithas yn gyffredinol. Rydym oll yn gorfod talu'r pris - nid yn unig drwy bwrs y wlad, ond yn bwysicach na hynny, o ran canlyniadau cymdeithasol i ddiodefwyr, yn enwedig plant a allai gyflawni'n wael yn addysgol neu gael eu hallgáu'n gymdeithasol o ganlyniad i fyw gyda thrais yn y cartref. Yn yr unfed ganrif ar hugain, mae'n arswydus sylweddoli bod dwy ferch, bob wythnos yn marw o ganlyniad i drais yn y cartref, ac mai trais yn y cartref sy'n cyfrif am 17% o'r holl droseddau treisgar.

Fel cymdeithas ni ddylem fod yn barod i oddef ymddygiad o'r fath mwyach ac mae'n rhaid i ni barhau i anfon neges glir i'r rhai sy'n dioddef trais yn y cartref a'r rhai sy'n ei gyflawni fel ei gilydd bod trais yn y cartref yn cael ei ystyried o ddifrif. Ond rhaid i ni wneud rhagor – ac fe wnawn ragor. Mae angen i ni godi ymwybyddiaeth y cyhoedd; helpu diodefwyr i gael y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt; disgwyl i weithwyr proffesiynol fod wedi'u hyfforddi'n dda ac yn gydymdeimladol; a sicrhau bod system y llysoedd yn cynorthwyo ac yn cefnogi diodefwyr. Ar draws y Llywodraeth mae rhaglen waith yn cael ei chynnal i gyflawni'r amcanion hyn. Mae gennym gyfrifoldeb penodol am y ffordd y mae'r system yn trin pobl yr effeithiwyd arnynt gan drais yn y cartref. Rydym am sicrhau bod llwybr cyflym ac effeithiol tuag at ddiogelwch ar gael i'r rhai sydd wedi dioddef trais yn y cartref a bod y rhai sy'n cyflawni trais yn cael eu dwyn gerbron llys barn.

## Mawrth 2007

# Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn nodi'r rhwymedïau sifil a'r cosbau troseddol sydd ar gael drwy'r llysoedd i ddiodefwyr trais yn y cartref ac mae'n cynnwys darpariaethau Deddf Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr 2004 sy'n weithredol ar hyn o bryd a'r rhai a fydd yn weithredol o 1 Gorffennaf 2007. Fe'i hanelir at ddarparwyr gwasanaethau statudol a gwirfoddol sy'n delio ag effaith trais yn y cartref. Bydd hefyd o gymorth i'r cyhoedd ond ni fwriedir iddo fod yn ganllaw hunangymorth. Bydd y DVD '*You Don't Have to Live in Fear*' o gymorth i'r rhai sy'n helpu ceiswyr drwy broses y llys teulu. Ceir rhagor o wybodaeth am arweiniad a thafenni yn Atodiad Ch.

## Sut rydym yn diffinio trais yn y cartref?

Mae'r diffiniad y cytunwyd arno gan Grŵp y Gweinidogion ar Drais yn y Cartref yn dilyn yr un a ddefnyddir gan Gymdeithas y Prif Swyddogion Heddlu, sef:

'Unrhyw achos o ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) rhwng oedolion sydd mewn perthynas agos neu sydd wedi bod mewn perthynas agos neu sy'n aelodau o'r teulu.<sup>1</sup>, waeth beth fo eu rhyw neu eu rhywioldeb'.

Gall trais yn y cartref fynd y tu hwnt i drais corfforol gwirioneddol. Gall hefyd gynnwys cam-drin emosiynol, dinistrio eiddo priod neu bartner, eu hynysu o'u ffrindiau, eu teulu neu ffynonellau cymorth posibl eraill, rheoli'r hawl i gael arian, eitemau personol, bwyd, cludiant a'r ffôn, a stelcio. Bydd plant yn aml yn gweld y trais ac mae gorgyffwrdd rhwng cam-drin merched a cham-drin plant (yn gorfforol ac yn rhywiol). Mae'n rhaid cydnabod effeithiau andwyol eang byw gyda thrais yn y cartref ar blant fel mater amddiffyn plant. Maent yn gysylltiedig â chyflawniadau addysgol gwael, allgau cymdeithasol a throseddau gan ieuencid, camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl a digartrefedd yn sgîl rhedeg i ffwrdd. Cydnabyddir bod trais a cham-drin yn y cartref hefyd yn gallu bod ar ffurf gweithredoedd perthnasau agos neu aelodau o'r teulu estynedig drwy gyflawni gweithgareddau anghyfreithlon megis priodas dan orfod, 'troseddau er anrhydedd' fel y'u gelwir ac 'arferion traddodiadol andwyol' megis enwaedu benywod. Efallai y bydd aelodau o'r teulu estynedig yn cydoddef neu'n rhan o'r patrwm o gam-drin

Mae canfyddiadau o Arolwg Troseddu Prydain<sup>2</sup> yn dangos bod y rhan fwyaf o drais yn y cartref yn cael ei chyflawni gan ddynion yn erbyn merched. Mae'r Canllaw hwn yn cyfeirio at geiswyr, diodefwyr, atebwyr, y rhai a ddrwgdybir, y rhais y'n cyflawni trais yn y cartref a/neu'r rhai sy'n cam-drin yn niwtral o ran rhyw'r unigolyn. Fodd bynnag, cydnabyddwn y gall dynion a phartneriaid o'r un rhyw ddiodef trais yn y cartref hefyd. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i ddynion a merched fel ei gilydd, waeth beth fo'u cyfeiriadedd rhywiol neu eu diwylliant. Rydym wedi amlygu'r angen i gyfeirio at wasanaethau arbenigol lle bo modd a rhestrir rhai ohonynt yn y ffynhonnell gyfeirio yn Atodiad Ch.

---

<sup>1</sup> *Diffinnir aelodau o'r Teulu* fel mam, tad, mab, merch, brawd, chwaer, mam-gu a thad-cu p'un a ydynt yn berthnasau uniongyrchol, teulu yng nghyfraith neu lysteulu.

<sup>2</sup> Finney, A. Domestic violence, sexual assault and stalking: findings from the 2004/2005 British Crime Survey. Adroddiad Ar-lein y Swyddfa Gartref 12/06.

## Pa rwymediâu a chosbau sydd ar gael?

Mae nifer o opsiynau ar gael drwy'r llysoedd. Bydd y gwahanol lwybrau a ddilynir gan ddiodefwyr yn dibynnu ar amrywiol ffactorau, gan gynnwys:

- difrifoldeb a/neu natur y trais neu'r aflonyddu
- y berthynas rhwng yr unigolyn a gam-drinnir a'r un sy'n cam-drin
- goblygiadau ariannol, ee yr hawl i gael cymorth cyfreithiol
- y baich profi mwy caeth sy'n ofynnol gan y llysoedd troseddol o'u cymharu â'r llysoedd sifil. (Mewn achosion troseddol mae'n rhaid profi bod yr achos "y tu hwnt i bob amheuaeth resymol" tra bydd y llys yn dod i benderfyniad yn ôl "pwysau tebygolrwydd" mewn achos sifil.)
- dymuniadau'r ceisydd / diodefwyr o ran y diogelwch sydd ei angen arnynt o dan y gyfraith;
- diogelwch gwirioneddol a thybiedig y gall ei gyfraith ei roi mewn gwirionedd, yn ogystal â'r gwasanaethau cymorth priodol sydd ar gael.

Mae Rhan 1 o'r Canllaw hwn yn esbonio'r camau y gall diodefwyr trais yn y cartref eu cymryd i ddwyn achos sifil yn y llys sirol, y Llys Achosion Teuluol (Ynadon), neu'r Uchel Lys.

Mae Rhan 2 yn nodi'r darpariaethau sy'n rheoli achosion lle mae trais yn y cartref wedi codi mewn achosion sy'n ymwneud â threfniadau cyswllt / preswyl plentyn.

Mae Rhan 3 yn esbonio'r cosbau sydd ar gael drwy'r llysoedd troseddol, gan gynnwys Llysoedd Ynadon a Llysoedd y Goron.

Mae Rhan 4 yn nodi rhai o'r ddeddfwriaeth gysylltiedig arall a allai effeithio ar y rhai sy'n diodef trais yn y cartref a'r rhai sy'n ei gyflawni, megis darpariaethau tai.

# RHAN 1: RHWYMEDÏAU SIFIL

## Y ddeddfwriaeth

Mae nifer o Ddeddfau yn gymwys i raddau gwahanol i drais yn y cartref o dan awdurdodaeth sifil:

- Rhan IV o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 (DCT 1996)
- Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 (DDA 1997)  
– sydd hefyd yn cynnwys cosbau troseddol
- Deddf Plant 1989 (DP 1989)
- Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (DMP 2002)
- Deddf Plant 2004 (DP 2004)
- Deddf Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr 2004<sup>3</sup> (Deddf TyyC 2004)
- Deddf Partneriaeth Sifil [DPS 2004]
- Deddf Plant a Mabwysiadu 2006 (DPM 2006)

Yn y tudalennau a ganlyn nodwn brif ddarpariaethau rhwymedïau sifil o dan bob Deddf a chynigiwn ganllawiau ar sut i ddilyn camau penodol.

## Rhan IV o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996

Mae Rhan IV o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 (DCT 1996) yn darparu rhwymedi sifil ar gyfer ymyrryd, trais a meddiannu cartref. Ei diben yw diogelu pobl sy'n dioddef trais yn y cartref mewn perthynas deuluol. Ceir meini prawf caeth o ran pwy all wneud cais am waharddeb neu orchymyn meddiannaeth i'w diogelu eu hunain o dan y Ddeddf hon; ceir amlinelliad ohonynt isod.

O dan DCT 1996, gall y llys ddyfarnu gorchmynion meddiannaeth a gorchmynion peidio ag ymyrryd i ddiogelu'r ceisydd rhag yr atebydd (y sawl y gwneir y waharddeb yn ei erbyn) Mae gan lysoedd bŵer hefyd mewn unrhyw Achos Teuluol - y mae'r atebydd yn barti ynddo - i wneud gorchymyn peidio ag ymyrryd, hyd yn oed os na wnaed cais ffurfiol am orchymyn ac os bydd y llys o'r farn y dylid gwneud un er budd parti neu blentyn.

Mae gorchymyn meddiannaeth yn rheoleiddio meddiannu'r cartref a rennir gan y pâr a'u plant er mwyn diogelu unrhyw barti neu'r plant rhag trais yn y cartref. Gall y gorchymyn wahardd rhywun sy'n cam-drin o'r eiddo yn gyfan gwbl, neu rannu'r eiddo i'w (g)wahardd rhag mynd i mewn i ran o'r cartref. Os bydd atebydd eisoes wedi gadael yr eiddo, gellir defnyddio gorchymyn meddiannaeth, felly, i'w (h)atal rhag dychwelyd a/neu ddod o fewn ardal benodol i'r eiddo.

---

<sup>3</sup> a 1 – 4 yn diwygio Deddf Cyfraith Teulu 2006



Mae sawl math o orchymyn meddiannaeth (gweler isod) ond bydd y rhai mwyaf cyffredin yn nodi bod yn rhaid i'r atebydd adael eiddo lle mae'r partion yn byw ac, ar ôl gadael yr eiddo, na ddylai ddychwelyd na cheisio dychwelyd iddo, na dod o fewn pellter penodol iddo. Bydd y gorchymyn hefyd yn cynnwys hysbysiad am unrhyw ddyddiadau ar gyfer gwrandawriadau pellach ac yn nodi am ba gyfnod y bydd y gorchymyn yn weithredol. Yn gyffredinol, bydd y gorchymynion hyn yn para rhwng chwe mis a blwyddyn ond gallant bara hyd nes y gwneir "gorchymyn pellach". Mewn rhai achosion dim ond am gyfnod o chwe mis y gellir estyn y gorchymyn, er enghraifft, lle mae'r ceisydd yn cyd-fyw neu roedd yn cyd-fyw, heb fudd yn y cartref.

Cyn cyhoeddi gorchymyn o'r fath bydd y llys yn cymhwysu'r prawf "pwysau niwed", sy'n cynnwys y cysyniad o niwed sylweddol. Bwriad y prawf hwn yw canfod pa unigolyn a/neu blentyn neu blant sy'n byw gyda hwy a fydd yn wynebu'r perygl mwyaf os gwneir gorchymyn, neu os na wneir gorchymyn. Os bydd y llys yn cymhwysu'r prawf pwysau niwed o blaid priod/partner neu gyn-briod/cyn-bartner, mae dyletswydd orfodol ar y llys i wneud gorchymyn. Bydd y llys hefyd yn asesu amgylchiadau'r parti yn ôl y 'ffactorau perthnasol' a nodir yn adran 33 (6) o'r Ddeddf. Gall y rhain fod yn eithaf cymhleth am fod y Ddeddf yn gwahaniaethu rhwng priod, y rhai sydd â hawl i fyw yn y cartref a chyd-breswylwyr heb hawliau.

Defnyddir gorchymyn peidio ag ymyrryd i atal rhywun rhag cyflawni trais neu fygwth trais yn erbyn y ceisydd neu unrhyw blant, neu rhag ymyrryd â hwy. Nid yw'r Ddeddf yn diffinio ymyrryd ond gall gynnwys bygylu, poeni, bygwth ac aflonyddu. Mae union eiriad gorchymynion peidio ag ymyrryd yn gwahardd yr atebydd rhag defnyddio trais neu fygwth trais yn erbyn y ceisydd a rhag rhoi cyfarwyddyd neu anogaeth i unrhyw un arall wneud hynny nac awgrymu mewn unrhyw ffordd y dylai unrhyw un arall wneud hynny. Gall hefyd wahardd yr atebydd rhag bygylu, poeni neu aflonyddu ar y ceisydd a rhag rhoi cyfarwyddyd neu anogaeth i unrhyw un arall wneud hynny nac awgrymu mewn unrhyw ffordd y dylai unrhyw un arall wneud hynny. Defnyddir y geiriad hwn hefyd i ddiogelu unrhyw blant a enwir yn y cais gan yr atebydd.

Mae diogelu plant rhag trais, neu'r bygythiad o drais, yn gymwys i unrhyw "blentyn perthnasol". Diffinnir plentyn perthnasol fel:

- Unrhyw blentyn y gellid disgwyl iddo fyw gyda'r naill barti neu'r llall dan sylw;
- Unrhyw blentyn sy'n destun achos mabwysiadu neu achos o dan y Ddeddf Plant;
- Unrhyw blentyn arall y mae'r llys o'r farn bod ei fuddiannau yn berthnasol.

Mae'r meini prawf ar gyfer pwy all wneud cais am orchymyn meddiannaeth, a'r mathau o orchymynion y gall y llysoedd eu gwneud, yn fwy cymhleth na'r meini prawf ar gyfer gorchymynion peidio ag ymyrryd ac ymdrinnir â hwy yn fanylach isod. Os byddwch yn gwneud cais am orchymyn peidio ag ymyrryd gallwch hefyd wneud cais am orchymyn meddiannaeth, gan ddefnyddio'r un ffurflen gais, ar yr amod bod eich achos yn bodloni'r meini prawf perthnasol.

Gwneir cais am orchymynion 'gyda rhybudd' neu 'heb rybudd'. Esbonnir y termau hyn isod hefyd.

## **Gwneud cais am orchmynion peidio ag ymyrryd a gorchmynion meddiannaeth**

### **Pwy all wneud cais?**

Ceir rhestr o'r rhai sy'n gymwys i wneud cais am orchmyn peidio ag ymyrryd a/neu orchmyn meddiannaeth o dan DCT 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf TyyC 2004) yn Atodiad A. Yr egwyddor yw bod cymhwyster yn seiliedig ar gysylltiad drwy berthnasau teuluol a/neu gyd-fyw a'r hawl i fyw yn y cartref teuluol.

Os bydd ceiswyr o dan 18 oed a thros 16 oed bydd angen "cyfaill agosaf" neu gynrychiolydd cyfreithiol arnynt i'w helpu gyda'r cais.

### **Ble i gael gorchmynion**

Gellir gwneud cais ar gyfer y naill neu'r llall neu'r ddau orchmyn hyn mewn unrhyw lys sirol sydd ag awdurdodaeth deuluol ac mewn llys ynadon sydd hefyd yn gweithredu fel Llys Achosion Teuluol. Dylai ceiswyr nodi, gyda datblygiad y Gwasanaeth Teuluol Unedig, y tebyg yw y caiff y math hwn o gais ei drin yn fwyfwy ar lefel Llys Achosion Teuluol.

Weithiau caiff achosion cymhleth iawn sy'n dechrau mewn llysoedd achosion teuluol eu trosglwyddo i'r llysoedd sirol. Hefyd ceir rhai mathau penodol o geisiadau am orchmynion meddiannaeth na all y Llys Achosion Teuluol ymdrin â hwy.

### **Sut i wneud cais**

Gall ceiswyr roi cyfarwyddyd i gyfreithiwr (yn ddelfrydol cyfreithiwr â phrofiad o waith sy'n ymwneud â thrais yn y cartref<sup>4</sup>) i wneud cais yn uniongyrchol i'r llys ei hun. Os rhoddir cyfarwyddyd i gyfreithwyr bydd dwyn achos gerbron y llys yn ddrutach, oni bai bod y ceisydd yn gymwys i gael arian cyhoeddus.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran gwneud cais ar eich rhan eich hun ond, os bydd ceiswyr yn gwneud hyn, mae'n rhaid iddynt fod yn barod i gwblhau'r ffurflenni a'r datganiadau perthnasol eu hunain ac esbonio eu hachos gerbron y llys. Gall staff y llys helpu drwy egluro gweithdrefnau'r llys, ond ni allant roi cyngor cyfreithiol ar rinweddau achosion unigol na rhoi cyngor am ganlyniadau tebygol. Fodd bynnag, gall sefydliadu cymorth gwirfoddol<sup>5</sup>, megis lloches Cymorth i Fenywod leol, gwasanaethau allgymorth neu Gymorth i Ddiodefwyr roi cymorth a gwybodaeth ychwanegol. Mae'n bosibl y bydd y sefydliadau hyn hefyd yn gallu awgrymu lle y gellid cael cyngor cyfreithiol ond yn gyffredinol ni fyddant yn cynnig cyngor o'r fath eu hunain.

---

<sup>4</sup> Mae gan Resolution banel o Gyfreithwyr Arbenigol wedi'u hachredu yng nghyfraith Cam-drin yn y Cartref. Gallwch chwilio eu gwefan [www.resolution.org.uk](http://www.resolution.org.uk). Bydd y canlyniadau yn dangos cyfreithwyr neu gyfreithwyr o dan hyfforddiant, gweithredwyr cyfreithiol a pharagyfreithwyr ac a ydynt yn arbenigwyr neu gyfryngwyr wedi'u hachredu gan Resolution.

<sup>5</sup> Dylai unrhyw ddarparwr gwasanaeth sy'n cyfeirio rhywun at wasanaeth arall ystyried eu hanghenion penodol a thargedu gwasanaethau arbenigol lle bynnag y bo modd er mwyn bodloni gofynion unigol, e.e., Gwasanaethau i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

## Beth fydd cost y broses?

Ar hyn o bryd cost cyflwyno cais o dan Ddeddf Cyfraith Teulu (DCT) i'r llys sirol yw £60 – ni chodir ffi am gais a wneir yn y Llys Achosion Teuluol – llysoedd ynadon. Y gost am unrhyw geisiadau dilynol a wneir o dan y Ddeddf fydd £60 hefyd. Bydd yn rhaid i geiswyr a fydd yn penderfynu gweithredu drostynt eu hunain dalu'r ffi hon pan fyddant yn cyflwyno'r cais. Fodd bynnag, mae'n bosibl y cânt eu heithrio neu y caiff y ffi ei dileu rywfaint – fel yr esbonnir yn Nhaflen y Gwasanaeth Llys EX160A<sup>6</sup>, *Court Fees: Do you have to pay them?*

Bydd swyddogion y llys yn diddymu'r ffi os bydd yr achos yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf canlynol:

- Mae'r ceisydd a'u partner yn cael Cymhorthdal Incwm
- Mae'r ceisydd yn cael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
- Mae'r ceisydd yn cael Credyd Treth Gwaith
- Mae'r ceisydd neu eu partner yn cael Cymhorthdal Incwm, neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm, Credyd Treth Gwaith, neu Gredyd Treth i Bobl Anabl ac mae'r ceisydd yn cael 'Help Cyfreithiol' ac yn rhan o achos sifil; neu
- Maent yn rhan o achos teuluol ac yn cael 'Help Cyfreithiol'.

Dylai ceiswyr sy'n rhoi cyfarwyddyd i gyfreithiwr gofio y bydd yn rhaid iddynt dalu ffioedd y llys a chostau cyfreithiol y cyfreithiwr. Gallai ceiswyr o'r fath fod yn gymwys i gael cymorth o dan Gronfa Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (a elwid yn Gymorth Cyfreithiol gynt a weinyddir gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol). Er mwyn bod yn gymwys i gael y cymorth hwn, mae'n rhaid iddynt fodloni'r prawf modd statudol a dangos bod ganddynt sail resymol dros gyflwyno'r achos.

## A oes arian ar gael i helpu i gyflwyno achos?

Bernir pob achos yn ôl eu hamgylchiadau a'u rhinweddau eu hunain ac fe'u mesurir yn erbyn y meini prawf a nodir yng Nghod Ariannu'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Ceir arweiniad hefyd o dan Ganllaw ar Wneud Penderfyniadau y Cod Ariannu. Mewn achosion lle mae angen gwneud gwaharddeb trais yn y cartref ar fyrder, gall cyfreithiwr sy'n gweithio ar contract i'r Comisiwn ddefnyddio pwerau datganoledig i roi tystysgrif Cynrychiolaeth Gyfreithiol frys er mwyn sicrhau nad oes oedi wrth gael cynrychiolaeth ar gais o'r fath.

Yn unol â'r Meini Prawf, mae'n rhaid bod gobaith lled dda o gael y gorchymyn, a bod y buddiannau tebygol i'r cleient yn sgîl yr achos yn cyfiawnhau'r costau tebygol, o ystyried pa obaith sydd o gael y gorchymyn y gwneir cais amdano a'r holl amgylchiadau eraill (Maen Prawf 11.10). Er ei bod yn ddigon posibl y byddai hawl gan y ddau barti i gael arian cyhoeddus mae diffynyddion (y rhai sydd wedi cyflawni trais yn y cartref/atebwyr) yn llai tebygol o fodloni'r meini prawf, yn enwedig os mai cais am orchymyn peidio ag ymyrryd yn unig a wneir. Mewn achosion sy'n ymwneud â thrais yn y cartref, mae canllawiau'r Cod

---

<sup>6</sup> (nodyn) [http://www.hmcourts-service.gov.uk/HMCSCourtFinder/GetLeaflet.do?court\\_leaflets\\_id=172](http://www.hmcourts-service.gov.uk/HMCSCourtFinder/GetLeaflet.do?court_leaflets_id=172) / (cais) [http://www.hmcourts-service.gov.uk/HMCSCourtFinder/GetForm.do?court\\_forms\\_id=168](http://www.hmcourts-service.gov.uk/HMCSCourtFinder/GetForm.do?court_forms_id=168)

Ariannu yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd am yr arian esbonio pa gamau a gymerwyd eisoes gan yr Heddlu a pha ddiogelwch arall, os o gwbl, sydd eisoes ar waith. Yn gyffredinol ni fydd yn briodol rhoi arian cyhoeddus lle bydd amodau mechnïaeth yn weithredol sy'n diogelu'r ceisydd oni bai eu bod yn debygol o gael eu diddymu yn fuan wedi hynny yn dilyn penderfyniad ar erlyniad troseddol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rheol absoliwt ac mae'n rhaid ystyried faint o ddiogelwch a roddir i'r ceisydd oherwydd unrhyw achos troseddol ym mhob achos unigol. Dylai'r cyfreithiwr sy'n rhoi cyngor hefyd ddangos eu bod wedi ystyried a ddylid anfon llythyr o rybudd i'r atebydd cyn cychwyn achos llys neu a fyddai llythyr o'r fath yn peryglu'r cleient.

Mae'n bwysig sylweddoli bod y Comisiwn yn ystyried achosion yn ôl teilyngdod. Dylai cyfreithwyr bob amser ystyried gwneud cais am arian a dylent roi cymaint o wybodaeth â phosibl i'r Comisiwn ynglŷn ag amgylchiadau'r achos. Ar adeg cyhoeddi'r canllaw hwn, mae pobl sy'n cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm yn gymwys yn awtomatig i gael arian cyhoeddus. Fel arall, gall pobl gael cymorth os yw eu hincwm misol gros yn llai na £2,350 (mae terfyn incwm gros uwch yn gymwys os oes gan y ceisydd fwy na phedwar plentyn dibynnol), eu hincwm gwario misol yn llai na £649 y mis a'u cyfalaf gwario yn £8,000 neu lai. Os bydd eu hincwm gwario misol rhwng £280 a £649 y mis, neu os bydd eu cyfalaf gwario rhwng £3,000 ac £8,000, cynigir arian iddynt ar y sail eu bod yn cytuno i dalu cyfraniadau tuag at eu costau cyfreithiol. **Noder** Caiff y ffigurau hyn eu diwygio eto yn unol â'r broses flynyddol o uwchraddio Budd-daliadau'r Wladwriaeth (tua mis Ebrill bob blwyddyn).

Yn ogystal, mae gan y Comisiwn y disgrisiwn i hepgor y terfyn incwm gwario uchaf o £649 er budd dioddefwyr trais yn y cartref sy'n ceisio diogelwch gan y llys. Mae'r hepgoriad yn gymwys lle mae'r cleient yn gofyn am waharddeb neu orchymyn arall i'w ddiogelu rhag niwed neu draddodiant oherwydd torri gorchymyn o'r fath. Fodd bynnag, ni ellir hepgor cyfraniadau ac felly yn yr achosion hyn bydd y cyfraniad misol yn fwy na'r uchafswm cyfraniad sy'n gymwys fel arfer. Hyd yn oed pan na fydd unrhyw gyfraniad yn ofynnol o gyfalaf a/neu incwm, mae'n bosibl y bydd y "tâl statudol" yn gymwys os bydd y cleient yn adennill neu'n cadw eiddo neu arian mewn achos cysylltiedig megis achos llareiddiad ategol. Mewn achosion o'r fath bydd yn ofynnol i dalu costau cyfreithiwr y cleient a ariennir o unrhyw eiddo neu arian a adenillir neu a gedwir.

Mae rhagor o wybodaeth am arian cyhoeddus ar gael ar wefan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a chan Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol ([www.clsdirect.org.uk](http://www.clsdirect.org.uk)) sy'n cynnwys taflen y gellir ei llwytho i lawr sy'n crynhoi'r gyfraith ac sy'n addas ar gyfer cleientiaid.

### **Beth yw ceisiadau gyda rhybudd?**

Mewn ceisiadau gyda rhybudd anfonir rhybudd at bob parti i'w hysbysu i ymddangos mewn gwrandawriad llys.

Unwaith y cyflwynir cais i'r llys sirol neu'r Llys Achosion Teuluol:

- Rhoddir rhif achos iddo a'i restru ar gyfer gwrandawriad gerbron naill ai Barnwr Rhanbarth neu Farnwr Cylchdaith, neu fainc o ynadon. Gellid trefnu dyddiad unrhyw bryd o 24 awr i bedair wythnos yn ddiweddarach, yn dibynnu ar fusnes y llys a natur frys

yr achos

- Mae'n rhaid cyflwyno cais gyda rhybudd i'r unigolyn dan sylw<sup>7</sup>, hynny yw, ei roi i'r atebydd ei hun, o leiaf ddau ddiwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad (mae cyfreithwyr fel arfer yn cyflogi cyflwynwyr gwysion i wneud hyn);
- Bydd cais FL401, datganiad ategol a ffurflen FL402 – hysbysiad o ddyddiad y gwrandawriad – yn cael eu cyflwyno i'r atebydd;
- Pan fydd yr atebydd wedi cael y papurau perthnasol, mae'n rhaid i'r ceisydd gyflwyno datganiad cyflwyno (ffurflen FL415) sydd ar gael gan y llys neu'r Llys Achosion Teuluol).

### **Beth yw ceisiadau heb rybudd?**

Cyfeirir at y rhain fel ceisiadau 'unochrog' hefyd. Gwrandewir arnynt heb hysbysu'r atebydd (felly yn ei (h)absenoldeb). Mae'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais heb rybudd yn debyg iawn i'r weithdrefn ar gyfer ceisiadau gyda rhybudd. Yr unig wahaniaeth yw pan ddaw'r ceisydd i'r llys i gyflwyno'r cais, mae'n mynd gerbron y barnwr/ynad ar yr un diwrnod. Mae'n rhaid i'r datganiad ar lw hefyd gynnwys y rhesymau pam y dylai'r llys ymdrin â'r cais heb hysbysu'r atebydd yn gyntaf.

Mae adran 45 o DCT 1996 yn cynnwys darpariaethau statudol ar geisiadau heb rybudd a'r canllawiau y dylai'r llysoedd eu dilyn wrth benderfynu a ddylid gwrandawrio cais heb rybudd. Mae'n nodi ffactorau i lywio'r llys wrth iddo benderfynu a yw gwneud gorchymyn heb rybudd ai peidio yn gyfiawn ac yn gyfleus ac a oes perygl o niwed, yn ôl yr hyn sy'n debygol,<sup>8</sup> i'r ceisydd (neu unrhyw blant) os na wneir y gorchymyn ar unwaith. Os gwneir gorchymyn peidio ag ymyrryd a/neu orchymyn meddiannaeth heb rybudd, mae'n rhaid i'r llys roi dyddiad ar gyfer gwrandawriad llawn er mwyn rhoi cyfle i'r atebydd ddod i'r llys.

Fel arfer rhoddir ceisiadau heb rybudd, ond os caiff cais o'r fath ei wrthod gan y llys (ac fe ddigwydd hyn o bryd i'w gilydd), mae'r llys yn sicrhau y cynhelir gwrandawriad yn gyflym, fel arfer o fewn wythnos. Mae gorchymynion peidio ag ymyrryd yn llawer mwy tebygol o gael eu rhoi heb rybudd na gorchymynion meddiannaeth. Mewn achosion lle mae brys mawr gall llysoedd eistedd y tu allan i oriau gwaith arferol neu ar y penwythnos.

### **Sut i wneud cais am orchymynion peidio ag ymyrryd<sup>9</sup>**

Dylai ceisydd:

- Gwblhau ffurflen FL401 (gellir cael copiau ohoni yn y llys ac mae ar gael dros y rhyngwrdd yn [www.hmcourts-service.gov.uk/HMCSCourtFinder](http://www.hmcourts-service.gov.uk/HMCSCourtFinder))
- Nodi'r berthynas â'r atebydd (drwy dicio'r blwch perthnasol)

---

<sup>7</sup> Mae angen cyflwyno rhai ceisiadau ar gyfer gorchymynion meddiannaeth i'r morgaisai neu'r landlord hefyd - gweler rheolau 3.8(11) a 3A(10).

<sup>8</sup> Gweler rhagor am 'niwed' yn Rhan II - Plant

<sup>9</sup> Mae ffurflenni'r llys ar gael ar wefan Gwasanaeth Llysoedd EM yn <http://www.hmcourts-service.gov.uk/HMCSCourtFinder/FormFinder.do> a gellir gwneud rhai ceisiadau ar-lein yn [www.hmcourts-service.gov.uk/onlineservices](http://www.hmcourts-service.gov.uk/onlineservices).

- Nodi'n gryno, yn y lle a roddir, pa rwymedi a geisir
- Cwblhau ffurflen C8 os yw'r ceisydd am hepgor eu cyfeiriad cartref o ffurflen FL401 – nid oes angen caniatâd y llys i wneud hyn
- Cyflwyno datganiad ar lw i ategu'r cais (dylai hwn amlinellu prif ffeithiau'r achos , gan gynnwys manylion am unrhyw droseddu ac ymyrryd gan yr heddlu).

Gyda chaniatâd y llys, gellir ategu FL401 drwy roi tystiolaeth lafar yn lle deunydd ysgrifenedig. Mewn achosion lle mae brys mawr mae'n bosibl y bydd y llys yn barod i dderbyn y cais heb ddatganiad ategol, ond fel arfer bydd y llys yn gofyn i'r ceisydd sicrhau ei bod yn cyflwyno'r datganiad yn ddiweddarach.

### **Beth yw'r gwahaniaeth gyda gorchmynion meddiannaeth?**

Mae gorchmynion meddiannaeth yn fwy cymhleth na gorchmynion peidio ag ymyrryd am amrywiol resymau, ond yn bennaf am fod pum gwahanol adran o Ran IV o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 yn berthnasol i'r mater hwn (adrannau 33, 35, 36, 37 a 38).

Mae rhoi gorchymyn yn dibynnu ar berthynas y partion dan sylw ac a oes gan y ceisydd hawliau meddiannaeth eisoes.

Mae'n bwysig cofio mai dim ond mewn perthynas ag eiddo sy'n gartref i'r partion dan sylw, sydd wedi bod yn gartref iddynt, neu y bwriedir iddo fod yn gartref iddynt, y gall ceiswyr wneud cais am orchymyn meddiannaeth. Er enghraifft, ni ellir gwneud gorchymyn mewn perthynas ag eiddo a brynwyd at ddibenion buddsoddi.

### **Beth yw'r mathau o orchymynion meddiannaeth?**

Gall y llys wneud sawl gorchymyn gwahanol o dan DCT1996. Rhestrir rhai ohonynt isod er mwyn rhoi syniad o'r hyn y gallai'r ceisydd ddisgwyl ei gael.

Gall gorchymyn:

- Ganiatáu i'r ceisydd fyw yn y cartref neu ran o'r cartref
- Gwahardd yr atebydd rhag byw yn y cartref neu ran benodol ohono
- Ei gwneud yn ofynnol i'r atebydd adael y cartref (erbyn amser a dyddiad penodol)
- Ei gwneud yn ofynnol i'r atebydd beidio â dychwelyd i'r cyfeiriad a nodir
- Ei gwneud yn ofynnol i'r atebydd beidio â throi'r ceisydd allan o'r cartref
- Ei gwneud yn ofynnol i'r parti sy'n byw yn y cartref gymryd gofal rhesymol ohono
- Rheoleiddio'r defnydd o'r dodrefn a'r teclynnau yn y cartref
- Ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd neu'r atebydd barhau i dalu'r morgais neu'r rhent am y

cartref.

Gall gorchmynion meddiannaeth hefyd gynnwys rhybuddion o gosb a gall y llys hefyd orchymyn i Hawl i Arestio (gweler isod) gael ei hatodi. Fodd bynnag, ni all y llys atodi Hawl i Arestio i orchymyn i gymryd gofal rhesymol o'r cartref, i dalu'r morgais neu'r rhent, nac i un sy'n ymwneud â defnyddio dodrefn neu declynnau. O ganlyniad i fwllch yn y gyfraith ar hyn o bryd, ni all y llys orfodi i'r morgais neu'r rhent gael ei dalu.

O dan amgylchiadau eithriadol gall ceiswyr gael gorchmynion meddiannaeth heb rybudd gan ddilyn yr un gweithdrefnau â'r rhai a amlinellwyd ar gyfer gorchmynion peidio ag ymyrryd. Os bydd atebydd yn torri gorchymyn meddiannaeth, bydd yr un gweithdrefnau gorfodi ar gael i'r ceisydd â'r gweithdrefnau ar gyfer gorchmynion peidio ag ymyrryd.

### **Pwy all wneud cais am orchymyn meddiannaeth?**

Mae tri chategori o bobl a all wneud cais am orchymyn meddiannaeth:

- pobl â hawl
- pobl heb hawl
- pobl â hawliau cartref priodasol neu hawliau fel Partneriaid Sifil.

Mae gan bobl 'â hawl' ryw hawl gyfreithiol i fyw mewn eiddo fel rhydd-ddeiliad, tenant neu drwyddedai cytundebol. Nid oes gan bobl 'heb hawl' unrhyw hawliau o'r fath.

Mae'r math o orchymyn meddiannaeth y gall dioddefwyr trais yn y cartref wneud cais amdano yn dibynnu ar b'un a ydynt yn rhai â hawl neu heb hawl. Os nad oes ganddynt hawl, mae'r math o gais yn dibynnu a oeddent yn briod â'r atebydd. Gall ceisydd â hawl wneud cais am orchymyn o dan Adran 33 o DCT, ond gall rhywun heb hawl wneud cais o dan Adrannau 35, 36, 37 neu 38.

Mae'n rhaid i rywun â hawl sy'n gwneud cais am orchymyn meddiannaeth ddangos bod ganddynt gysylltiad â'r atebydd, er enghraifft, drwy briodas, partneriaeth sifil neu gyd-fyw.

Ceir rhestr o'r diffiniadau o gysylltiad yn Atodiad A.

### **Beth yw gwrandawiadau a gorchmynion?**

Cynhelir gwrandawiadau peidio ag ymyrryd a meddiannaeth ar gyfer ceisiadau FL401 yn breifat - "mewn siambrau" (yn ystafell y barnwyr) yn y llys sirol. Gellir eu cynnal hefyd mewn llysoedd achosion teuluol, lle caiff y cyhoedd ei eithrio o'r llys. Gall y naill lys neu'r llall ganiatáu i bobl eraill fod yn bresennol, er enghraifft, cyfaill neu gynghorydd annibynnol, i roi cefnogaeth. Efallai y bydd angen i'r ceiswyr roi tystiolaeth lafar i'r llys. Mae hyd gwrandawiadau yn amrywio, yn dibynnu ar ba mor gymhleth yw'r achos a ph'un a yw'r atebydd yn gwadu'r honiadau. Ar ôl gwrando ar yr achos gall y llys:

- a) gwrthod y cais; neu

- b) gwneud gorchymyn peidio ag ymyrryd a/neu orchymyn meddiannaeth; neu
- c) derbyn 'ymgymeriad' (gweler isod) gan yr atebydd yn ôl telerau y cytunwyd arnynt gan y ceisydd a'r atebydd ond mae'n rhaid i'r llys hefyd fod yn fodlon y bydd hwn yn rhoi diogelwch digonol i'r ceisydd.

### **Beth yw 'ymgymeriadau'?**

Mae ymgymeriad yn opsiwn sy'n caniatáu i'r partïon ddatrys eu hanghydfod heb gynnal gwrandawriad llawn. Mae'n addewid a wneir i'r llys i wneud, neu beidio â gwneud, pethau penodol. **Nid yw'n addefiad o euogrydd.** Gellir gwneud ymgymeriadau mewn achosion a restrir naill ai yn y Llys Sirol neu'r Llys Achosion Teuluol er bod y cosbau am dorri ymgymeriad yn wahanol yn y Llys Achosion Teuluol. Dim ond pan fydd y naill lys neu'r llall yn fodlon ei bod yn ddiogel derbyn ymgymeriad mewn achosion y dylent wneud hynny. Gall yr atebwyr wneud ymgymeriad heb orfod cyfaddef unrhyw un o'r honiadau a wnaed yn eu herbyn. Felly, ni ellir defnyddio ymgymeriad mewn achosion troseddol dilynol fel tystiolaeth o gyhuddiad troseddol, nac fel prawf bod trais wedi digwydd. Nid yw ychwaith yn rhoi unrhyw dystiolaeth ffeithiol y digwyddodd unrhyw achos o gam-drin.

Ni all y llys atodi Hawl i Arestio i ymgymeriad, ond mae torri ymgymeriad yn ddirmyg yng ngŵydd y llys o hyd a gellir ei orfodi yn yr un ffordd ag unrhyw orchymyn arall gan y llys. Mae'n rhaid i'r ymgymeriad (sydd wedi'i eirio mewn ffordd debyg i orchymyn peidio ag ymyrryd fel arfer) gael ei lofnodi gan y sawl sy'n ei roi. Fel arfer bydd y llys yn cyflwyno ffurflen N117 i'r ddau barti cyn iddynt adael y gwrandawriad.

### **A oes modd newid y gorchymyn?**

Os bydd yr atebydd neu'r ceisydd am amrywio (newid telerau) neu ryddhau (canslo) neu estyn gorchymyn meddiannaeth, gorchymyn peidio ag ymyrryd, neu'r ddau, mae'n rhaid iddynt wneud cais i'r llys gyda rhybudd. Bydd y llys yn trefnu gwrandawriad pellach

### **A geir ceisiadau mewn llysoedd eraill?**

Dylai ymarferwyr nodi yn arbennig mewn achosion cyfraith breifat yn y llysoedd sifil a/neu lysoedd teulu (achosion rhwng unigolion), nad yw'r llys yn debygol o fod yn ymwybodol o unrhyw achosion eraill sy'n aros am ddyfarniad yn y llys troseddol. Er enghraifft, ni fyddai llys sy'n gwrandao ar gais am gyswllt o reidrwydd yn ymwybodol o achos troseddol arfaethedig lle roedd amodau mechnïaeth yn atal yr atebydd (troseddwr honedig) rhag cysylltu â'r plant wedi cael ei gosod. Dylai cynrychiolwyr cyfreithiol bob amser holi eu cleientiaid ynglŷn ag achosion eraill. Mae llysoedd yn debygol o ofyn i bartïon dynnu sylw at unrhyw achosion eraill ond dylai cynrychiolwyr cyfreithiol sicrhau bod y llys yn ymwybodol o bob achos cyfredol a phob achos yn y gorffennol lle y caniateir sôn amdanynt o dan reolau tystio.

Yn Rhan 3 o'r Canllaw hwn, trafodwn reolau tystio ymhellach, yng nghyd-destun rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodaethau. (Gweler o dan yr adran ar rôl Gwasanaeth Eryln y Goron.)

### **A allwch apelio?**

Gellir cyflwyno apêl yn erbyn gorchymyn Rhan IV pan fydd y ddau barti wedi bod i



wrandawriad a phan fydd un parti neu'r ddau barti yn anfodlon ar y gorchymyn a roddwyd. Mae'n rhaid cyflwyno'r apêl o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad y gwnaed y gorchymyn gwreiddiol. Os na all apelydd gyflwyno apêl o fewn y cyfnod hwn, gall wneud cais i'r un llys a wnaeth y gorchymyn am ganiatâd i gymryd mwy o amser i baratoi apêl.

Gwrandewir ar apeliadau mewn gwahanol lysoedd i'r llysoedd a wnaeth y gorchymyn gwreiddiol:

- Gwrandewir ar apeliadau mewn perthynas â gorchymynion a wnaed yn y Llys Achosion Teuluol yn y Llys Adrannol o'r Uchel Lys
- Gwrandewir ar apeliadau mewn perthynas â gorchymynion gan Farnwr Rhanbarth o'r llys sirol gerbron Barnwr Cylchdaith yn y llys sirol
- Gwrandewir ar apeliadau mewn perthynas â gorchymynion a wnaed gan Farnwr Rhanbarth o'r Uchel Lys gerbron Barnwr Uchel Lys yn yr un ardal;
- Gwrandewir ar apeliadau mewn perthynas â gorchymynion a wnaed gan Farnwr Cylchdaith yn y Llys Apêl.

### **Beth yw Hawl i Arestio?**

Atodi Hawl i Arestio i unrhyw ddarpariaeth o orchymyn peidio ag ymyrryd (tan 1 Gorffennaf 2007) neu orchymyn meddiannaeth lle cafwyd trais neu fygythiad o drais. Mae Hawl i Arestio yn galluogi swyddogion yr heddlu i arestio atebydd; heb warant, os drwgdybir yn rhesymol iddo/iddi dorri darpariaethau gorchymyn. Y prif fudd i'r ceisydd yw nad oes angen iddo/iddi wneud cais ar wahân i'r llys roi gwarant i arestio. Gall llysoedd atodi Hawl i Arestio i orchymyn (neu i ddarpariaethau penodol yn y gorchymyn) gyda rhybudd neu heb rybudd. Ar ôl arestio'r atebydd, mae'n rhaid i'r heddlu ei ddwyn gerbron y llys (hynny yw, i'r un lefel o lys a wnaeth y gorchymyn gwreiddiol) o fewn 24 awr (gan ddechrau o'r amser y caiff ei (h)arestio). Os na all y llys ymdrin â'r mater ar unwaith yn y gwrandawriad hwnnw, mae'r hawl ganddo i gadw'r troseddwr honedig yn y ddalfa neu ei ryddhau ar fechnïaeth.

Fodd bynnag, mae adran 1 o Deddf TyyC 2004 yn diwygio DCT i wneud torri gorchymyn peidio ag ymyrryd yn drosedd a phan gaiff ei gweithredu ar 1 Gorffennaf 2007, ni fydd yn gyfreithlon mwyach i'r llysoedd atodi Hawl i Arestio i orchymynion peidio ag ymyrryd. At hynny, mae Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (DTCDH) yn disodli'r rhestr o droseddau arestiol o adran Adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol o fis Ionawr 2006 i wneud pob trosedd yn un arestiol a thrwy hynny ddisodli adran 10 o Ddeddf TyyC 2004. Caiff Hawl i Arestio ei hatodi i orchymynion meddiannaeth o hyd, lle y bo'n briodol.

Mae'n rhaid i Hawliau i Arestio nodi'r dyddiad y dônt i ben. O bryd i'w gilydd, gallant ddod i ben cyn i'r gorchymynion y cawsant eu hatodi iddynt ddod i ben. Er enghraifft, gallai hyn ddigwydd pan fo'r Hawl i Arestio yn gymwys i ran o orchymyn yn unig.

Mae'n rhaid i ffurflen yr Hawl i Arestio, FL406, nodi'n glir bob rhan o'r gorchymyn y mae Hawl i Arestio wedi'i "hatodi" iddi. Mae'n rhaid cyflwyno'r ffurflen i'r swyddog â gofal unrhyw orsaf heddlu sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae'r ceisydd yn byw. Mae'n rhaid cynnwys datganiad

gan y ceisydd (neu eu cyfreithiwr) yn nodi bod y gorchymyn wedi cael ei gyflwyno i'r atebydd neu fod yr atebydd wedi cael ei hysbysu o delerau'r gorchymyn.

### **Pryd y gallai fod angen Gwarant i Arestio?**

Os nad atodwyd Hawl i Arestio i orchymyn meddiannaeth, neu os mai dim ond i ddarpariaethau penodol yn y gorchymyn y cafodd ei hatodi a bod yr atebydd wedi torri'r gorchymyn, gall y ceisydd wneud cais i'r un llys sifil am warant i arestio. Mae'r weithdrefn hon hefyd yn gymwys os bydd yr heddlu yn penderfynu peidio ag arestio neu gyhuddo troseddwr honedig. Gwneir y cais heb rybudd (fel yr eglurwyd uchod) ar ffurflen FL407 ac mae'n rhaid ei ategu gan dystiolaeth ar lw. Os yw'r llys yn fodlon nad yw'r atebydd wedi cydymffurfio â thelerau'r gorchymyn, cyhoeddir gwarant i arestio (ffurflen FL408). Anfonir y warant hon gan y llys at y swyddog â gofal yr orsaf heddlu sy'n gyfrifol am ardal y ceisydd.

### **Beth yw Rhybudd o Gosb?**

Defnyddir y geiriad canlynol ar ffurflen yr ymgymeriad a ffurflen y gorchymyn meddiannaeth<sup>10</sup>: **"Rhaid i chi ufuddhau i'r cyfarwyddiadau a geir yn y gorchymyn hwn. Os na wnewch hynny, byddwch yn dirmygu'r llys, a gallwch gael eich anfon i'r carchar."**

Gelwir hyn yn rhybudd o gosb. Os bydd yr atebydd yn methu ag ufuddhau i'r gorchymyn neu'r ymgymeriad, gall y ceisydd wneud cais i'r un llys am wrandawriad traddodi.

Yn y gwrandawriadau hyn mae'n rhaid i'r atebydd, os cafwyd ef/hi yn euog o dorri'r gorchymyn, "ddangos achos", hynny yw, esbonio pam na ddylid ei (h)anfon i'r carchar. Os bydd yn methu â rhoi esboniad digonol dros yr hyn a wnaeth, gall y barnwr ei (d)dedfrydu am ddirmygu'r llys. (Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â sut yr ymdrinnir â thorri gorchymynion peidio ag ymyrryd ar ôl 1 Gorffennaf 2007 ar dudalen 20).

### **Beth a wnaiff y llys pan gaiff gorchymyn ei dorri?**

Pan gaiff atebydd ei arestio am dorri gorchymyn meddiannaeth y mae Hawl i Arestio wedi'i hatodi iddo fe'i dygir gerbron y llys. Gall y llys:

- Ymdrin â'r mater ar unwaith a gwneud y gorchymyn angenrheidiol; neu
- Gohirio'r mater (mae'n rhaid ailgyflwyno'r achos i'r llys o fewn 14 diwrnod i'r arestiad oni chaiff y cyfnod ei estyn drwy ganiatâd) a rhyddhau'r atebydd;
- Rhoi rhybudd heb fod yn llai na 2 ddiwrnod o ddyddiad y gwrandawriad a ohiriwyd.

Yn y gwrandawriad traddodi bydd y llys yn penderfynu p'un a dorrwyd y gorchymyn ai peidio ac, os penderfynir iddo gael ei dorri, bydd yn penderfynu pa gosb i'w rhoi. Ar hyn o bryd, gall y Llys Achosion Teuluol roi dedfryd o garchar o hyd at ddeufis a gall y llys sirol roi dedfryd o garchar o hyd at ddwy flynedd. Mae'r rhan fwyaf o draddodebau am gyfnod o wythnosau neu fisoedd yn hytrach na blynyddoedd. Mewn sawl achos bydd y llysoedd yn gwneud

---

<sup>10</sup> O 1 Gorffennaf 2007, bydd ffurflenni gwahanol ar gyfer gorchymynion peidio ag ymyrryd a gorchymynion meddiannaeth.

gorchymyn traddodi ataliedig sy'n golygu nad anfonir yr atebydd i'r carchar ar yr amod y cydymffurfir â thelerau'r gorchymyn.

### **Beth yw'r mathau o remand?**

- **Remand yn y ddalfa** Cedwir yr atebydd yn y ddalfa, i'w (d)dwyn gerbron y llys ar ddiwedd y draddodeb (heb fod yn fwy nag 8 diwrnod clir o'r penderfyniad hwn). Os na fydd y cyfnod remand yn fwy na 3 diwrnod clir, gellir cadw'r atebydd yn yr orsaf heddlu.
- Remand yn y ddalfa – fel uchod ond cyfeirir at yr atebydd fel y diffynnydd
- **Remand ar fechnïaeth** Gallai'r atebydd gael mechnïaeth sy'n golygu na chaiff ei gadw/chadw yn y ddalfa ond y bydd yn rhaid iddo/iddi ddilyn unrhyw amodau a bennir gan y llys. Gallai'r rhain gynnwys talu arian fel bond i sicrhau y bydd yr atebydd yn dychwelyd i'r gwrandawriad; neu gallai ei gwneud yn ofynnol i rywun gyflwyno bond ariannol ar ran yr atebydd. Ni all y cyfnod remand hwn fod yn fwy na 8 diwrnod clir oni fydd y ddau barti yn cytuno ar gyfnod hwy. Fodd bynnag, ni ellir cynnal gwrandawriad a ohiriwyd fwy na 14 diwrnod ar ôl i'r atebydd gael ei (h)arestio.
- Remand ar fechnïaeth: Gallai'r diffynnydd gael mechnïaeth heb amodau neu gydag amodau. Os na fydd y diffynnydd yn ymddangos ar y dyddiad ac am yr amser ac yn y man y mae wedi cael ei fechnïo/mechnïo iddo, neu os yw'n torri amodau ei fechnïaeth/mechnïaeth, caiff ei (h)arestio a'i (d)dwyn gerbron y llys. Yna bydd y llys yn ystyried statws ei remand o'r newydd yng ngoleuni amgylchiadau torri mechnïaeth.
- **Remand pellach:** Os na fydd yr atebydd yn gallu ymddangos gerbron y llys oherwydd salwch neu anhawster arall, gellir ymestyn y cyfnod remand i ganiatáu ar gyfer hyn.
- Fel uchod, ond o ran diffynnydd nid atebydd.

Bydd adran 1 o Ddeddf TyyC 2004 yn gwneud torri gorchymyn peidio ag ymyrryd yn drosedd. Gall rhywun gael ei arestio am dorri gorchymyn peidio ag ymyrryd os bydd yn gwneud hynny heb esgus rhesymol ac ar adeg pan nad oeddent yn ymwybodol bod y gorchymyn yn bodoli.

Ni ellir collfarnu rhywun o drosedd o dan adran 1 mewn perthynas ag unrhyw ymddygiad sydd wedi cael ei gosbi eisoes fel achos o ddirmygu'r llys. Ac ni all neb gael ei gosbi am ddirmyg os yw'r ymddygiad wedi arwain at gollfarn o dan adran 1.

Os caiff yr heddlu ei alw i achos o dorri gorchymyn peidio ag ymyrryd ac yn arestio'r atebydd/y troseddwr honedig ac os gwneir y penderfyniad (mewn ymgynghoriad â'r ceisydd-ddioddefwr a Gwasanaeth Erlyn y Goron) i beidio ag erlyn, gallai'r ceisydd sy'n ddioddefwr wneud cais o hyd i'r llys sifil er mwyn i'r achos o dorri gorchymyn gael ei drin fel dirmygu'r llys.

Gallai'r ceisydd sy'n ddioddefwr hefyd benderfynu peidio â chysylltu â'r heddlu o gwbl a gwneud cais ar wahân am warant i arestio neu gyhoeddi a threfnu i gyflwyno hysbysiad i

ddangos pam na ddylid traddodi'r atebydd i'r carchar a gofyn i'r llysoedd sifil ymdrin â'r mater fel dirmygu'r llys, fel y nodir uchod.

Os caiff y troseddwr honedig ei arestio a'i gyhuddo bydd y weithdrefn yr un fath â'r weithdrefn ar gyfer gorchmynion meddiannaeth uchod heblaw am y ffaith y bydd y troseddwr honedig yn cael ei ddwyn gerbron y llys ynadon yn y lle cyntaf. Yna bydd y ceisydd sy'n ddiodefwr yn y broses sifil wreiddiol yn dod yn dyst allweddol sy'n ddiodefwr mewn achos troseddol a bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn erlyn achos cyhyd â bod digon o dystiolaeth a bod gwneud hynny er budd y cyhoedd.

## **Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 (sifil)**

Mae Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 (DDA 1997) yn cynnwys rhwymedïau troseddol a sifil ar gyfer trais yn y cartref. Ceir esboniad o'r cosbau troseddol yn Rhan 3 o'r canllaw hwn.

Mae'r rhwymedïau yn y Ddeddf hon yn debyg i'r rhai a geir yn Neddf Cyfraith Teulu 1996. Cynlluniwyd DDA 1997 yn wreiddiol i ymdrin â'r broblem o "stelcio" ond fe'i defnyddiwyd hefyd gan bobl na allant wneud cais am orchymyn o dan DCT 1996 gan nad ydynt yn bodloni'r gofyniad angenrheidiol ar gyfer "cysylltiad" drwy berthnasau teuluol a/neu gyd-fyw. I ryw raddau bydd Deddf TyyC 2004 yn gwella ar y sefyllfa hon: adran 3 – gan roi parau o'r un rhyw sy'n cyd-fyw yr un cyfle i gael gorchmynion Rhan IV â pharau heterorywiol (a weithredwyd ym mis Rhagfyr 2005), ac adran 4 – sy'n gwneud parau nad ydynt erioed wedi cyd-fyw na phriodi yn gymwys i gael gorchmynion Rhan IV (i'w gweithredu 1 Gorffennaf 2007).

Mae DDA 1997 yn darparu rhwymedïau sifil ar gyfer atal atebwyr – sy'n rheoli ymddygiad a/neu eu hallgáu o ardal o amgylch cartref neu weithle ceisydd – ac ar gyfer ceisio iawndal am aflonyddu. Maent yn cynnwys gwaharddebau a cheisiadau am iawndal. Mae un enghraifft gymharol ddiweddar yn amlygu posibilïadau'r Ddeddf hon. Gwnaed cais llwyddiannus yn erbyn mam-yng-nghyfraith mewn achos lle dyfarnwyd £35,000 o iawndal i'r ceisydd lle roedd yr aflonyddu yn gyfystyr â merch ifanc yn cael ei cham-drin yn fwriadol ac yn esgeulus gan ei mam-yng-nghyfraith.<sup>11</sup>

### **Pwy all wneud cais?**

Gall unrhyw un wneud cais am waharddeb neu iawndal yn erbyn unrhyw un arall o dan y Ddeddf hon.

O dan adran 3 o'r Ddeddf, gall achosion fod yn seiliedig ar "torri'n wirioneddol neu'n gyhuddedig adran 1". Mae hyn yn wahanol i achosion troseddol o dan y Ddeddf sy'n gofyn am brawf "patrwm ymddygiad", sy'n golygu bod y diffynnydd wedi aflonyddu ar y ceisydd o leiaf ddwywaith o'r blaen.

### **Pa lysoedd sy'n gysylltiedig?**

Gellir gwneud ceisiadau o dan adran 3 o'r Ddeddf i'r Uchel Lys neu'r llys sirol. NI all Llysoedd Achosion Teuluol ymdrin â'r achosion hyn.

### **Sut y bydd ceiswyr yn gwneud cais?**

Os bydd yr heddlu yn penderfynu dechrau achos troseddol o dan adrannau 2 neu 4 o'r Ddeddf, ni fyddai angen dechrau achos sifil o gwbl. Os bydd ceisydd yn penderfynu dechrau achos sifil o dan adran 3, gallant weithredu ar eu rhan eu hunain neu benodi cyfreithiwr. Mae cynnwys cyfreithiwr yn ddrutach, oni all ceiswyr gael arian cyhoeddus (gweler tudalen 5).

---

<sup>11</sup>Singh –v- Bhakar (4NG17900) Llys Sirol Nottingham 24 Gorffennaf 2006

Mae'n rhaid i geisydd sy'n gweithredu drosto/drosti ei hun fod yn barod i gwblhau'r holl ffurflenni perthnasol a phleidio ei (h)achos gerbron y llys os daw'r achos i dreial, gan gynnwys y posibilrwydd o holi a chael ei holi gan y troseddwr honedig.

Wrth wneud cais am iawndal neu waharddeb, mae amrywiol opsiynau ar gael i geiswyr. Gallant:

- 1) cyflwyno cais am swm penodol (iawndal am swm sefydlog); neu
- 2) cyflwyno cais am swm amhenodol (iawndal am swm amhenodol o arian);a/neu
- 3) cyflwyno cais am waharddeb naill ai gyda chais am arian neu heb gais am arian.

Beth bynnag fydd eu dewis, bydd angen i geiswyr gwblhau ffurflen N1 (y gellir ei chael drwy'r llys). Bydd y ffi a fydd yn daladwy yn dibynnu ar y rhwymedi y gwneir cais amdano, felly hefyd y weithdrefn drwy'r llys. Fodd bynnag, os bydd ceiswyr yn dilyn opsiwn 3 uchod, trefnir gwrandawriad gerbron Barnwr Rhanbarth neu Gylchdaith.

Efallai na fydd yn rhaid i geiswyr sy'n dewis opsiwn 1 ymddangos gerbron y barnwr. Os na fydd diffynnydd yn ymateb i'r cais ac os bydd yn methu â chyflwyno amddiffyniad, gall ceisydd ofyn i'r llys wneud dyfarniad drwy ddiffyg. Yn yr achosion hyn, ni fydd angen mynd i'r llys. Mewn argyfwng, gall ceiswyr wneud cais i'r llys am waharddeb interim neu dros dro (gan ddefnyddio ffurflen N244) cyn cyflwyno'r cais am achos llawn.

### **Pa gamau gorfodi sydd ar gael o dan DDA 1997?**

Mae torri gorchymyn o dan y Ddeddf hon yn drosedd. Nid oes unrhyw ddarpariaeth o dan y Ddeddf ar gyfer atodi Hawl i Arestio fel gyda DCT 1996. Ond pan fydd y llys yn rhoi gwaharddeb er mwyn atal diffynnydd, ac y bydd ceisydd yn nodi bod y diffynnydd wedi torri gorchymyn hwn, gall wneud cais am warant i arestio (drwy'r llys lle y gwnaed y gorchymyn). Dim ond os gwneir y cais ar lw ac os bydd gan y barnwr sail resymol dros gredu nad yw'r diffynnydd wedi cydymffurfio â'r gorchymyn neu ran o'r gorchymyn y gellir cyflwyno gwarant. Yna byddai gwarant yn cael ei chyflwyno gan y llys i'r swyddog â gofal yr orsaf heddlu leol sy'n gyfrifol am ardal y ceisydd. Fodd bynnag os bydd y gweithgarwch sy'n arwain at dorri gorchymyn yn droseddol, yna gall yr heddlu arestio am y drosedd.

Fel arall, gall ceisydd wneud 'cais am draddodeb' - cais i draddodi diffynnydd i'r ddalfa neu i'r carchar. Ar ôl i staff y llys gyflwyno'r cais, caiff ei restru ar gyfer gwrandawriad. Wedyn, os profir bod y gorchymyn wedi'i dorri, bydd yn rhaid i'r diffynnydd "ddangos achos" pam na ddylid ei draddodi/ei thraddodi i'r carchar am anufuddhau i'r gorchymyn.

## Deddf Partneriaeth Sifil 2004

Gweithredwyd y ddeddfwriaeth hon ar 5ed Rhagfyr 2005 ac mae'n creu math newydd o berthynas gyfreithiol, a allai gael ei ffurfio gan ddau o bobl:

- sydd o'r un rhyw;
- nad ydynt eisoes mewn partneriaeth sifil nac wedi'u priodi'n gyfreithlon;
- nad ydynt o fewn y graddau o berthynas a waharddwyd;
- y mae'r ddau/ddwy ohonynt yn 16 oed neu drosodd.

Nid priodas yw partneriaeth sifil ond perthynas gyfochrog sy'n debyg o ran difrifoldeb ac ymrwymiad ac sydd wedi'i chreu er mwyn rhoi modd i barau o'r un rhyw gael eu perthynas wedi'i chydabod o dan y gyfraith os dymunant. Bydd yn rhoi'r statws o fod yn bartner sifil ei gilydd i'r pâr. Drwy fynd drwy weithdrefn gofrestru y caiff partneriaeth sifil ei ffurfio, yn debyg i briodas sifil. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer cydnabod cydberthnasau cyfreithiol cofrestredig penodol o dan gyfraith dramor (gan gynnwys priodas rhwng pâr o'r un rhyw mewn gwledydd sy'n caniatáu partneriaethau sifil) yn y DU fel partneriaethau sifil.

Mae DPS 2004 (adran 82, Atodlen 9) yn diwygio Rhan IV o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 fel y bydd yr un darpariaethau yn gymwys i bartneriaid sifil ag sy'n gymwys i barau priod. Golyga hyn, pan fydd darpariaethau i 'briod' wneud cais am orchymyn meddiannaeth, y bydd gan bartneriaid sifil yr un hawliau. Ar yr un pryd diwygiwyd rhestr DCT 1996 o 'bersonau cysylltiedig' gan adran 3 o DTyC 2004 er mwyn egluro bod y rhai sy'n cyd-fyw yn cynnwys rhai o'r un rhyw.

## Deddf Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr 2004<sup>12</sup>

Adrannau 1 a 4 yw'r darpariaethau o'r Ddeddf sy'n effeithio ar Ddeddf Cyfraith Teulu 2006 sydd i'w gweithredu o 1 Gorffennaf 2007. Gweithredwyd Adrannau 2 a 3 ym mis Rhagfyr 2005: mae adran 2 yn nodi ystyriaethau ychwanegol os bydd partion yn cyd-fyw neu os oeddent yn arfer cyd-fyw a natur eu perthynas; mae adran 3 yn rhoi parau o'r un rhyw sy'n cyd-fyw yr un hawl i gael gorchmynion peidio ag ymyrryd a gorchmynion meddiannaeth.

Mae adran 1 yn gwneud torri gorchmyn peidio ag ymyrryd yn drosedd. Gellir cosbi unrhyw achos o dorri gorchmyn drwy roi hyd at bum mlynedd o garchar ar ddiad. Manylir ar hyn uchod o dan "Beth a wnaiff y llys pan gaiff gorchmyn ei dorri?"

Mae adran 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhai parau nad ydynt erioed wedi cyd-fyw nac wedi priodi, i fod yn gymwys i gael gorchmynion peidio ag ymyrryd a gorchmynion meddiannaeth.

Adran 12: yn galluogi llysoedd i osod gorchmynion atal pan fyddant yn dedfrydu am unrhyw drosedd (ac ar ôl rhoi rhyddfarn) ac yn rhoi hawl i unrhyw un a enwir mewn gorchmynion atal

---

<sup>12</sup><http://www.legislation.hms.gov.uk/acts/acts2004/20040028.htm>

wneud cynrychioliadau yn y llys os gwneir cais i amrywio neu derfynu'r gorchymyn. Caiff yr adran hon ei gweithredu ar 1 Gorffennaf 2007 hefyd a nodir y manylion yn Rhan 3 o dan yr adran sy'n ymdrin â'r agweddau troseddol ar Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997.



## **RHAN 2: PLANT**

### **Deddf Plant 1989**

Gwnaeth Atodlen 6 i Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 ddiwygio Deddf Plant 1989 i ganiatáu i'r llys atodi gofyniad, gyda'r hawl i arestio os oedd angen, i symud neu wahardd rhywun o gartref plentyn, neu wahardd yr unigolyn hwnnw rhag mynd i mewn i ardal benodedig o amgylch cartref y plentyn hwnnw. Pan fydd gan y llys y pŵer i orchymyn gofyniad gwahardd gallai yn lle hynny dderbyn ymgymriad gan yr unigolyn perthnasol.

Dim ond pan fydd Gorchymyn Diogelu Brys neu Orchymyn Gofal Interim wedi'i wneud y bydd y llys yn gwneud y gorchmynion hyn (o dan adrannau 44A, 44B, 38A a 38B o Ddeddf Plant 1989) (fel y'u mewnosodwyd gan Atodlen 6 i Ddeddf Cyfraith Teulu 1996).

### **Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002**

Pasiwyd y Ddeddf Mabwysiadu a Phlant ym mis Tachwedd 2002. Mae'r Ddeddf hon bellach yn ei gwneud hi'n glir pan fydd llys yn ystyried ceisiadau o dan adran 8 o Ddeddf Plant 1989 a'i fod hefyd yn ystyried a yw plentyn wedi dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed, bod yn rhaid iddo ystyried niwed y gallai plentyn ei ddioddef nid yn unig oherwydd trais yn y cartref, ond o fod yn dyst i'r trais hwnnw.

Gweithredwyd y diffiniad diwygiedig o niwed ym mis Ionawr 2005. Mae'r diwygiad hwn yn rhoi arweiniad i'r llysoedd sy'n ychwanegu at ganllawiau sy'n bodoli eisoes – i'r llysoedd a'r bobl broffesiynol dan sylw – ar gyswllt a thrais yn y cartref.

Cyflwynwyd ffurflenni C1 ac C1A diwygiedig (a elwid yn aml yn ffurflenni 'Gateway') ar gyfer ceisiadau am drefniadau cyswllt a phreswyl plentyn ar 31 Ionawr 2005 hefyd. Mae ceiswyr ac atebwyr yn cael y cyfle i godi pryderon ynglŷn â niwed ar gam cynnar, gan roi gwybodaeth i'r llysoedd er mwyn iddynt ystyried a oes unrhyw achosion o drais yn y cartref wedi cael effaith andwyol ar y plentyn, neu a allai effeithio ar y plentyn yn y dyfodol

### **Deddf Plant 2004**

Newidiodd Deddf Plant 2004 y rheolau ynglŷn â datgelu gwybodaeth mewn achosion sy'n ymwneud â phlant. Daeth rheolau newydd i rym ar 31 Hydref 2005. Am fanylion llawn gweler canllawiau a gyhoeddwyd ar wefan y Gwasanaeth Llys: [http://www.hmcourts-service.gov.uk/docs/ex710\\_1105.pdf](http://www.hmcourts-service.gov.uk/docs/ex710_1105.pdf).

Nid oes dim yn y rheolau newydd yn tanseilio'r egwyddor mai lles plant yw'r prif beth y mae'n rhaid i'r llysoedd ei ystyried nac yn atal pŵerau cynhenid y llysoedd i ganiatáu neu gyfyngu ar ddadlennu ehangach mewn achosion penodol. Mae'r rheolau hyn yn cydbwysu

anghenion plant ac oedolion am breifatrwydd â'u hanghenion i allu ceisio cyngor a chymorth priodol. Mae'r rheolau yn ychwanegol at y newidiadau eraill a wnaed yn y gyfraith yn gynharach eleni.

Daeth adran 62 o Ddeddf Plant 2004 i rym ar 12 Ebrill 2005. Golyga hyn:

- Nad yw'n drosedd mwyach i barti mewn achos teuluol sy'n cynnwys plant ddatgelu gorchmynion i unigolion neu gyffwrdd eraill, ar yr amod na chânt eu datgelu i'r cyhoedd, neu unrhyw ran o'r cyhoedd, na'r cyfryngau;
- Nad yw'n ddirmyg llys mwyach i ddatgelu gwybodaeth pan fydd y rheolau yn awdurdodau amgylchiadau lle y gellid cyfleu gwybodaeth benodol am achos teuluol a gynhaliwyd yn breifat ac a oedd yn cynnwys plant.

## Deddf Plant a Mabwysiadu 2006

Aeth Deddf Plant a Mabwysiadu 2006<sup>13</sup> drwy'r Senedd a chael Cydsyniad Brenhinol ar 21 Mehefin 2006. Ar ôl i'r Ddeddf gael ei gweithredu bydd yn rhoi pwerau mwy hyblyg i'r llysoedd hwyluso cyswllt â phlentyn a gorfodi gorchmynion cyswllt a wnaed o dan Ddeddf Plant 1989. Bydd y Ddeddf yn rhoi mwy o ddewis i'r llysoedd pan fyddant yn ymdrin ag achosion cyswllt pan fydd gwrthdaro rhwng y rhieni. Mae mesurau hwyluso newydd yn y Ddeddf yn cynnwys rhoi'r pŵer i'r llysoedd ei gwneud yn ofynnol i rieni ymgymryd â "gweithgarwch cyswllt" megis mynychu rhaglenni neu ddsbarthiadau rhianta perthnasol, neu sesiynau gwybodaeth, cyn y gwneir gorchymyn cyswllt. Bydd y Ddeddf hefyd yn rhoi'r pŵer i'r llysoedd atodi amodau i orchmynion cyswllt, a allai ei gwneud yn ofynnol i riant ymgymryd â "gweithgarwch cyswllt" a gofyn i swyddog CAFCASS fonitro'r cyswllt.

Pan fydd gorchymyn cyswllt wedi'i dorri, mae darpariaethau yn y Ddeddf i orfodi gorchmynion cyswllt, gan alluogi'r llysoedd i orfodi'r sawl sy'n torri gorchymyn cyswllt i wneud gwaith di-dâl. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r llysoedd pan fyddant yn ymdrin ag achosion o dorri gorchmynion cyswllt, a bydd yn ychwanegol at y pwerau sy'n bodoli eisoes i drin achos o dorri gorchymyn fel dirmyg llys.

Mae adran 7 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion y Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS), neu swyddogion achosion teuluol yng Nghymru, gynnal asesiadau risg mewn achosion cyfreithiol preifat o dan Ddeddf Plant 1989 [gorchmynion trefniadau preswyl/cyswllt/camau gwaharddedig a materion penodol] pan fyddant o'r farn bod lle i ddrwgdybio bod plentyn mewn perygl o gael niwed. Yna mae'n ofynnol iddynt hysbysu'r llys o'u canfyddiadau mewn perthynas â'r perygl y caiff y plentyn niwed.

[Disgwylir i ddarpariaethau rhan 1 o Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006 mewn perthynas â Gorchmynion Cymorth Teuluol ac asesiadau risg gael eu gweithredu o fis Hydref 2007.]

---

<sup>13</sup> Gellir cael testun y Ddeddf yn: <http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/20060020.htm>

Mae'r cysylltiad hwn â Phapur Gwyrdd y Llywodraeth ar Rieni yn ymwahanu: Anghenion Plant a Chyfrifoldebau Rhieni: <http://www.dfes.gov.uk/childrensneeds/>

## RHAN 3: COSBAU TROSEDDOL

### Y Ddeddfwriaeth

Nid oes trosedd benodol o 'trais yn y cartref' o dan gyfraith drosedd. Felly mae'r cyhuddiad yn adlewyrchu orau y gallai amgylchiadau penodol y cam-drin neu'r trais. Golyga hyn y gallai llawer o droseddau fod yn gymwys i drais yn y cartref yn ogystal â'r rhai sy'n codi yng nghydestun priodas dan orfod. Mae adrannau o'r Ddeddfau a ganlyn yn gymwys i achosion o drais yn y cartref – nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr:

Llofruddiaeth	Cyfraith gwlad
Dynladdiad	Cyfraith gwlad
Torri Mechnïaeth	Deddf Mechnïaeth 1976 a6(1) (2) a (7)
Difrod troseddol	Deddf Difrod Troseddol 1971 a1 (1)
Ymosod cyffredin	Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 a39
Bygythiadau i ladd	Deddf Troseddau Corfforol 1861 a16
Niwed corfforol difrifol bwriadol	Deddf Troseddau Corfforol 1861 a18
Niwed Corfforol Difrifol/clwyfo	Deddf Troseddau Corfforol 1861 a20
Gwir niwed corfforol	Deddf Troseddau Corfforol 1861 a47
Arall	Deddf Troseddau Corfforol 1861
Aflonyddu	Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu a2(1) a (2), 4(1)
Affræe	Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 a3
Ymddygiad bygythiol	Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 a4
Ymddygiad bygythiol bwriadol	Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 a4(A)
Trais	Deddf Troseddau Rhyw 1956 a1
Ymosod drwy dreiddio	Deddf Troseddau Rhyw 2003 a2
Ymosod yn rhywiol	Deddf Troseddau Rhyw 2003 a3
Arall	Deddf Troseddau Rhyw 2003
Dwyn	Deddf Dwyn 1968 a1
Blacmel	Deddf Dwyn 1968 a21
Bygylu tyst	Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 a51
Tresmasu troseddol	Deddf Cyfraith Droseddau 1977 a6(1)
Creulondeb i blant	Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 a1
Herwygdio plant	Deddf Herwygdio Plant 1984 a1 a 2
Masnachu mewn pobl er mwyn camfanteisio arnynt	Deddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr, etc) 2004 a4
Masnachu mewn pobl er mwyn camfanteisio arnynt yn rhywiol	Deddf Troseddau Rhyw 2003 a57-60

Llysoedd ynadon sy'n ymdrin â phob achos o drais yn y cartref i ddechrau, pan fydd cyhuddiad o drosedd, gan fod yn rhaid i bob achos troseddol ddechrau yn y llys ynadon. Gan ddiybnnu ar ddifrifoldeb y drosedd, gellir wedyn anfon achosion i Lys y Goron. Caiff

troseddau difrifol fel trais rhywiol bob amser eu cyfeirio gan lysoedd ynadon i Lys y Goron, a fe'u gelwir yn droseddau 'ditiadwy yn unig'. Mewn achosion o'r fath y llys ynadon perthnasol fydd yn penderfynu a yw'r achos yn rhy ddifrifol iddo ymdrin ag ef. Os felly, byddant yn traddodi'r achos i Lys y Goron. Os penderfyna ei fod yn gallu gwrando'r achos gall y diffynnydd ddewis o hyd i gael Llys y Goron i wrando'r achos. Dim ond mewn llys ynadon y gellir gwrando achosion 'diannod yn unig'.

Ni all dioddefwyr trais yn y cartref fynnu bod Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn erlyn achos troseddol. Os penderfyna'r CPS beidio ag erlyn achos, am resymau a nodir isod, yna gall y dioddefwr ystyried rhwymedi sifil yn hytrach nag un troseddol. Fodd bynnag, mae'n bolisi gan y CPS i erlyn pob achos lle y bo modd.

### **Beth yw ymateb yr heddlu i drais yn y cartref?**

Mae gan y rhan fwyaf o Heddluoedd Unedau Trais yn y Cartref. Yn yr Unedau hyn mae swyddogion dynodedig, sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol mewn trais yn y cartref (ac mewn rhai ardaloedd arbenigeddau eraill fel priodas dan orfod), ar gael i gynnig cymorth i ddioddefwyr trais yn y cartref. Mae gan bob heddlu Unedau Diogelwch Cymunedol sy'n rhan o'r gorsafoedd heddlu lleol ac ynddynt hwy y lleolir yr Unedau Trais yn y Cartref fel arfer. Bydd yr Unedau hyn hefyd yn rhoi gwybodaeth a chynghor i ddioddefwyr ac yn ymdrin ag amrywiol broblemau cymunedol, gan gynnwys difrïo hiliol, niwsans gan gymdogion a phroblemau eraill a ddiffinnir fel troseddau casineb gan gynnwys trais homoffobig.

Pan elwir yr heddlu i ddigwyddiad lle cafwyd trais yn y cartref byddant fel arfer yn:

- Cynnal ymchwiliad cychwynnol a cheisio sicrhau'r holl dystiolaeth sydd ar gael, nodi tystiolaeth arall a allai fod ar gael, nodi tystion posibl yn y digwyddiad a chael manylion tystion eraill lle bo'n briodol.
- Arestio'r troseddwr os oes ganddynt sail dros wneud hynny ac os yw'n bresennol o hyd, neu y gellir dod o hyd iddo (nid oes angen gwarant i arestio rhywun y drwgdybir iddo gyflawni trosedd dreisgar neu dorri'r heddwch neu y drwgdybir ei fod ar fin gwneud hynny; nid oes angen iddynt fod wedi bod yn dyst i'r ymosodiad eu hunain ychwaith).
- Ceisio cael datganiad gan y dioddefwr ar y pryd heb fod yng ngwydd y sawl a ddrwgdybir, hyd yn oed os bydd y datganiad yn gryno ac yn sylfaenol. Fodd bynnag, lle mae tystiolaeth arall ar gael ac mae wedi cael ei chasglu gan yr heddlu, gall achosion gael eu herlyn heb gymorth y dioddefwr. Un o ddibenion cael datganiad gan y dioddefwr yw galluogi swyddogion i gyfweled y sawl a ddrwgdybir yn yr orsaf heddlu. Mae'n rhaid i'r diffynnydd gael ei gyhuddo o fewn 24 i'w arestio, oni roddwyd estyniad. Mewn rhai achosion gellir rhyddhau'r sawl a ddrwgdybir ar fechnïaeth, i'w ddychwelyd at yr Orsaf Heddlu, er mwyn cael rhagor o dystiolaeth.
- Weithiau, gofyn i'r dioddefwr weld Archwiliwr Meddygol Fforensig. Os bydd yn cytuno, gall yr heddlu ei hebrwng i'r orsaf heddlu i gael archwiliad. Mewn rhai achosion, bydd yr heddlu yn galw ar yr archwiliwr i weld y dioddefwr yn lleoliad y drosedd. Os bydd yn amharod i weld Archwiliwr caiff ei (h)annog i ymweld â meddyg

teulu neu'r ysbyty lleol mor fuan â phosibl. Bydd hyn nid yn unig yn sicrhau asesiad meddygol er mwyn cael triniaeth ond bydd hefyd yn rhoi tystiolaeth feddygol y gellir ei defnyddio fel tystiolaeth yn yr achos llys.

- Cyngori'r dioddefwr, fel sy'n ofynnol yn ôl strategaethau trais yn y cartref yr heddlu, ynglŷn â'r opsiynau eraill sydd ar gael, er enghraifft cael gwaharddeb o dan achos sifil. Byddai'r heddlu hefyd yn rhoi cyfeiriadau cyswllt ar gyfer sefydliadau cymorth, grwpiau eiriolaeth neu wasanaethau lloches lleol fel Cymorth i Fenywod, neu Gymorth i Ddioddefwyr neu Gyfreithiwr Arbenigol lleol mewn Trais yn y Cartref neu unrhyw wasanaeth arbenigol arall yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn. Mae angen cydsyniad y dioddefwr cyn i'r heddlu allu trosglwyddo unrhyw wybodaeth i Gymorth i Ddioddefwyr ond gellir cysylltu â'r sefydliad hwn yn uniongyrchol. Mae'r heddlu, mewn ymgynghoriad â'r CPS, yn gyfrifol am ymchwilio i'r mater a phenderfynu a ddylid cyhuddo'r sawl a ddrwgdybir yn seiliedig ar ba mor gryf yw'r dystiolaeth a'r tebygolrwydd o gollfarn.

### **Beth yw mechnïaeth yr heddlu?**

Gall diffynnydd gael ei r(h)yddhau ar fechnïaeth gan yr heddlu tra byddant yn aros am benderfyniad ynglŷn â chyhuddo neu ei (h)ymddangosiad cyntaf yn y llys. Gall mechnïaeth fod yn amodol neu'n ddiamod ac mae'n dibynnu ar amgylchiadau'r achos, gan gynnwys a oes ganddynt gollfarnau blaenorol perthnasol. Yn ogystal â mechnïaeth, gall diffynnydd gael ei gadw yn y ddalfa tra bydd yn aros am wrandawriad llys. Rhestrir diffynnyddion ar fechnïaeth ar ôl iddynt gael eu cyhuddo i ymddangos mewn llys ar y dyddiad nesaf sydd ar gael fel arfer.

Yn y gwrandawriad bydd y llys yn penderfynu a ddylid rhoi mechnïaeth i'r diffynnydd neu ei gadw yn y ddalfa tan y treial. Os gofynnir i'r llys remandio'r diffynnydd yn y ddalfa, mae'n rhaid i'r erlyniad ddangos na fyddai amodau mechnïaeth yn ddigon i atal y diffynnydd rhag methu ag ymddangos ar gyfer y gwrandawriad nesaf neu gyflawni troseddau eraill neu ymyrryd â thystion.

Ceir amrywiaeth o amodau y gall y llysoedd eu gosod ar ddiffynnydd:

- rhaid peidio â chysylltu â pherson a enwir boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; a/neu
- rhaid peidio â mynd i le penodol (a ddisgrifir yng nghyd-destun 'map strydoedd' yn hytrach na phellteroedd o gyfeiriad penodol os yw'n bosibl) neu fynd i le a enwir; a/neu
- rhaid byw a chysgu mewn lle a enwir; a/neu
- rhaid cyflwyno ei hun i orsaf heddlu a enwir ar ddiwrnod neu ddiwrnodau penodol ar amser penodol; a/neu
- rhaid rhoi ei basbort/ei phasbort i orsaf heddlu a enwir.

Er bod yr amodau hyn yn debyg, ni ddylid eu cymysgu â gorchmynion peidio ag ymyrryd na

gorchmynion meddiannaeth sifil, nad ydynt o reidrwydd yn cynnwys amodau diogelu o'r fath.

Pan fydd y llys yn rhoi mechnïaeth, bydd yn defnyddio ffurflen safonol i gofnodi'r penderfyniad ac unrhyw amodau. Os bydd diffynnydd yn torri unrhyw rai o amodau'r fechnïaeth, gellir ei (h)arestio ac mae pŵer gan y llys i'w gadw/chadw yn y ddalfa. Pan ddaw achos troseddol i ben, daw'r fechnïaeth i ben, felly bydd unrhyw amodau blaenorol y fechnïaeth yn peidio â bod yn weithredol. Felly ni fydd y diffynnydd o dan unrhyw gyfyngiadau mwyach, ac eithrio'r rhai a allai ddeillio o unrhyw ddedfryd a roddwyd. Gellir rhoi rhagor o ddiogelwch drwy osod gorchymyn atal a roddir o dan adran 5 o DDA 1997, neu os gwneir gorchymyn gwaharddeb sifil o dan DDA 1997 neu DCT 1996. Mae adran 12 o Ddeddf TyyC 2004 yn diwygio adran 5 ac yn mewnosod adran 5A newydd i'w gwneud yn bosibl i orchymyn atal gael ei wneud ar ôl rhyddfarn (gweler yn nes ymlaen am fanylion).

### **Beth yw rôl Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)?**

Rhoddodd Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 lawer mwy o gyfrifoldeb i'r CPS am benderfynu a ddylid cyhuddo pobl a ddrwgdybir ac o ba droseddau y dylid eu cyhuddo. Ceir 42 o Ardaloedd, sy'n cyfateb yn ddaearyddol i ardaloedd yr heddlu ac Ardal 'rithwir', CPS Direct, sy'n darparu gwasanaeth cenedlaethol y tu allan i oriau yn rhoi cyngor i'r heddlu cyn cyhuddo. Ymhob un o'r Ardaloedd hyn ceir cydlynnydd trais yn y cartref cenedlaethol, sy'n gweithredu'n strategol ac yn weithredol. Ef/hi yw'r erlynydd arweiniol ar gyfer achosion o drais yn y cartref.

Ar ôl i'r heddlu arestio rhywun a ddrwgdybir mae'n rhaid iddynt (ac eithrio yn achos rhai troseddau mân iawn) gyfeirio'r ffeil at un o gyfreithwyr y CPS sy'n penderfynu p'un a ddylid erlyn yr achos ai peidio. Caiff yr achos ei adolygu yn unol â'r Cod i Erlynwyr y Goron ac mae'r penderfyniad i erlyn yn seiliedig ar ddau brawf:

- 1) Prawf tystiolaethol - mae'n rhaid bod digon o dystiolaeth i sicrhau 'tebygolrwydd rhesymol o gollfarn'

Os bydd y dioddefwr yn penderfynu peidio â chefnogi'r erlyniad, ni roddir y gorau i'r achos o reidrwydd. Lle mae tystiolaeth arall ar gael, sy'n ddigonol i fodloni'r prawf tystiolaethol, gall yr achos gael ei erlyn. Fel arall, gallai tyst gael ei gymell i ddod i'r llys. Gwneir hyn ar ôl i erlynydd profiadol ystyried yr achos mewn ymgynghoriad â swyddog yr achos. Digwydd hyn fel arfer pan fydd angen erlyn achos er budd mwy cyffredinol y cyhoedd, er enghraifft, trais cynyddol, plant ynghlwm wrth yr achos neu ddioddefwr diamddiffyn iawn.

Os bydd dioddefwyr yn hysbysu'r heddlu eu bod am dynnu eu datganiad gwreiddiol yn ôl, bydd y CPS yn gofyn i'r heddlu gymryd datganiad ysgrifenedig arall yn esbonio eu rhesymau, yn cadarnhau a oedd eu datganiad gwreiddiol yn wir, ac yn gofyn a roddwyd pwysau arnynt i wneud y penderfyniad hwn. Gofynnir barn yr heddlu hefyd ynglŷn â'r penderfyniad i dynnu'r datganiad gwreiddiol yn ôl. Os amheuir y gallai'r dioddefwr fod wedi bod o dan bwysau gormodol i dynnu'r achos yn ôl, gallai'r CPS ofyn i'r heddlu ymchwilio ymhellach i'r mater .

- 2) Prawf budd y cyhoedd - dim ond os bydd y prawf tystiolaethol wedi'i fodloni y bydd yr erlynydd yn ystyried y prawf hwn.

Mae sawl ffactor o ran budd y cyhoedd y gellid eu hystyried o dan y prawf hwn. Mae

ffactorau megis a oedd y drosedd yn rhagfwiadus, a gafodd y drosedd ei chyflawni yng ngŵydd plentyn neu'n agos at blentyn neu a oes sail dros gredu bod y drosedd yn debygol o gael ei chyflawni eto oll yn berthnasol.

Gall y CPS o dan y gyfraith gael copïau o unrhyw orchmynion neu ddyfarniadau a wnaed mewn achos teuluol gan bartion a oedd yn rhan o'r achos, e.e. yr heddlu neu'r dioddefwr. Er mwyn cael deunydd pellach megis datganiadau neu adroddiadau, mae'n rhaid cael caniatâd y llys teuluol cyn y gellir eu cael neu eu defnyddio mewn achos arall.<sup>14</sup>

Pan fydd y CPS yn ymwybodol i orchymyn sifil gael ei dorri, bydd yn ystyried sut y gellir defnyddio'r wybodaeth hon ac a yw'n berthnasol o ran rhoi mwy o bwys wrth erlyn achosion troseddol.

Ceir manylion am sut y mae'r CPS yn erlyn achosion o drais yn y cartref yn ei bolisi diwygiedig, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2005<sup>15</sup>([www.cps.gov.uk](http://www.cps.gov.uk)).

### **Beth am fynd i'r llys ac amseroedd amser?**

Fel y crybwyllwyd uchod, ymdrinnir â'r rhan fwyaf o achosion troseddol sy'n ymwneud â thrais yn y cartref gan y llysoedd ynadon; cyfeirir cyfran fach at Lys y Goron, fel yr esbonnir isod. Gall yr amseroedd aros ar gyfer treialon yn y ddau fath o lys amrywio o ychydig wythnosau i sawl mis. Bydd y rhestru yn dibynnu ar leoliad a baich gwaith y llys dan sylw ond gall achos gael ei ohirio gan y naill ochr neu'r llall, er enghraifft, er mwyn paratoi'r achos, adroddiadau ac ati.

Caiff achos ei gyfeirio at Lys y Goron am nifer o resymau gan gynnwys:

- Mae'n drosedd "dditadwy" yn unig (gweler y rhestr termau); neu
- Mae'n drosedd "neillfordd" (gweler y rhestr termau) nad ystyrir ei bod yn addas ar gyfer treial diannod; neu
- Mae'n drosedd neillfordd ac mae'r diffynnydd yn dewis sefyll prawf yn Llys y Goron; neu
- Mae'n drosedd neillfordd ac nid yw'r ynadon o'r farn bod eu pwerau dedfrydu yn ddigonol.

Waeth ar ba gam y bydd yr achos troseddol, mae dyletswydd ar yr heddlu i hysbysu'r dioddefwr am unrhyw ddatblygiadau, yn arbennig am benderfyniadau o ran mechnïaeth. Dylai dioddefwyr gael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r achos, dyddiad y treial ac ati, drwy Uned Gofal i Dystion yr heddlu. Bydd yr Uned hon yn hysbysu'r dioddefwr am Gymorth i Ddioddefwyr a'r Gwasanaeth Tystion sydd ar gael yn y llys lleol lle gwrandewir yr achos. Mae'r Gwasanaeth Tystion yn rhoi cymorth a gwybodaeth i dystion, dioddefwyr, eu ffrindiau a'u teulu cyn, yn ystod ac ar ôl gwrandawriad. Gall drefnu ymweliadau â'r llys cyn y treial, os

---

<sup>14</sup> Gweler Rheolau Achosion Teuluol (Diwygio) 2005 (amrywiol)

<sup>15</sup> Policy for Prosecuting cases of Domestic Violence a How Prosecution Decisions are reached:  
<http://www.cps.gov.uk/publications/docs/DomesticViolencePolicy.pdf> A  
<http://www.cps.gov.uk/publications/docs/DomesticViolenceLeaflet.pdf>

gofynnir am hynny. Nodir y gwasanaeth llawn i dystion yn y daflen gan Gymorth i Ddoddefwyr, Going to Court, y dylai'r heddlu a/neu'r Uned ei rhoi i dystion. Cynghorir unrhyw un sy'n mynd i'r llys hefyd ynglŷn â'r treuliau teithio y gellir eu hawlio a sut i'w hawlio. Gall yr heddlu hefyd roi manylion cyswllt sefydliadau cymorth lleol perthnasol eraill i ddioddefwyr. Am ragor o wybodaeth gallwch fynd i wefan Dioddefwyr a Thystion Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn <http://www.hmcourts-service.gov.uk/infoabout/attend/witness/index.htm>.

### **Sut y caiff achos ei restru?**

Bydd Uned Gofal i Dystion yr heddlu yn yr Uned Cyfiawnder Troseddol yn gofyn i bob parti am ddyddiadau i'w hosgoi cyn y caiff achos ei restru ar gyfer treial - byddant hefyd yn gofyn am rifau ffôn a chyfeiriadau lle y gellir cysylltu â'r partion ar fyr rybudd.

Rhestrir achosion ar gyfer dyddiadau penodol yn y llysoedd ynadon, gan ganiatáu amser rhesymol rhwng yr hysbysiad cychwynnol am wrandawriad a'r dyddiad y trefnwyd y gwrandawriad hwnnw ar ei gyfer.

Yn llysoedd y Goron, caiff achosion eu rhestru naill ai ar gyfer dyddiadau penodol neu eu rhoi ar restr rhybudd cynnar sy'n cwmpasu cyfnod o tua phythefnos. Yn yr ail enghraifft, gallai'r partion gael eu rhybuddio am y gwrandawriad y noson cyn dyddiad y treial.

Os na ellir cysylltu â'r naill barti na'r llall, caiff yr achos ei ohirio tan ddyddiad diweddarach. Ni fydd angen i dystion fod yn bresennol os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog cyn y gwrandawriad. Os cofnodir ple euog ar ddechrau neu yn ystod y treial, ni fydd angen i unrhyw dystion a gafodd eu rhybuddio i fod yn bresennol wneud hynny mwyach.

### **Beth yw rôl tystion?**

Oherwydd natur trais yn y cartref, yn aml, y dioddefwr fydd yr unig dyst i'r drosedd ac, felly, y tyst allweddol ar gyfer y treial. Dim ond os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog neu os bydd tystiolaeth ategol gadarn iawn o ffynonellau eraill, fel cymdogion, yr heddlu, neu staff meddygol, y gellir ei chyflwyno gerbron y llys y gellir osgoi'r sefyllfa hon. Fodd bynnag, daw'r dystiolaeth orau gan y tyst ei hun.

O dan ddarpariaethau Adran 116 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, gall dioddefwr roi tystiolaeth drwy gyfrwng datganiad ysgrifenedig ar lw yn hytrach nag yn bersonol. Ceir sefyllfaoedd penodol lle y gellir defnyddio'r adran hon, er enghraifft, lle mae'r dioddefwr yn cael ei (h)atal rhag rhoi tystiolaeth oherwydd ofn neu na all roi tystiolaeth lafar oherwydd "cyflwr corfforol neu feddyliol", Mae'n rhaid i'r llys hefyd ystyried, er budd cyfiawnder, a ellid caniatáu'r datganiad yn lle tystiolaeth lafar.

O dan amgylchiadau penodol gellir derbyn datganiad rhywun nad yw'n rhoi tystiolaeth lafar oherwydd ofn. Gall y llys roi caniatâd - o dan adrannau 114-116 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 - i ddatganiad ysgrifenedig gael ei dderbyn os yw hynny er budd cyfiawnder o ran:-

- ei gynnwys; neu
- unrhyw annhegwch i unrhyw un gan gynnwys yr anallu i groesholi'r sawl a'i gwnaeth; neu



- a ellid bod wedi gwneud cyfarwyddyd ar gyfer Mesurau Arbennig; neu
- unrhyw amgylchiadau perthnasol eraill.

Mae'r llysoedd yn tueddu i fod yn amharod i ganiatáu'r ceisiadau hyn gan na chaiff cynrychiolydd cyfreithiol y diffynnydd gyfle i groesholi'r dioddefwr. Mae'r cais yn annhebygol o lwyddo. Fodd bynnag, mae Llys Ewrop wedi'i gwneud yn glir mai'r egwyddor gyffredinol yw a yw'r treial yn ei gyfanrwydd yn deg.

O fis Gorffennaf 2002, cafodd mesurau newydd eu cyflwyno, yn dilyn deddfwriaeth yn Neddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999, y gellir ei chymhwysu at bob 'dioddefwr'. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu adnabod tystion diamddiffyn neu dystion sydd wedi cael eu bygylu ar gam cynnar. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r CPS ystyried y sefyllfa gyda'r dioddefwr, a phenderfynu pa gais y dylid ei wneud i'r llys am unrhyw fesurau arbennig i helpu'r dioddefwr wrth roi tystiolaeth. Gall mesurau arbennig gynnwys: ystafelloedd aros a chyfleusterau ar wahân i ddiodefwyr a thystion; rhoi tystiolaeth o'r tu ôl i sgrîn, neu drwy gyfrwng cyswllt teledu/fideo; neu glirio'r oriel gyhoeddus. Fodd bynnag, dylid cofio y bydd y mesurau y gwnaed cais amdanynt a/neu a roddwyd yn dibynnu ar y math o dyst dan sylw a natur yr achos. Mae tabl yn crynhoi'r darpariaethau hynny yn Atodiad B.

### **Beth yw collfarn?**

Ar 7 Rhagfyr 2006, cyhoeddodd y Cyngor Canllawiau Dedfrydu ganllawiau diffiniol ar *Egwyddorion Trosfaol: Trais yn y Cartref*<sup>16</sup> a *Torri Gorchymyn Diogelu*<sup>17</sup>.

Er mwyn cael y diffynnydd yn euog o drosedd, mae'n rhaid i'r rheithgor neu ynad/barnwr fod yn siŵr o euogrwydd y diffynnydd "y tu hwnt i bob amheuaeth resymol" yn hytrach nag "yn ôl yr hyn sy'n debygol" fel mewn materion sifil. Os na fyddant yn siŵr, nid oes ganddynt unrhyw ddewis ond cael y diffynnydd yn ddieuog.

Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog neu os ceir y diffynnydd yn euog ar ôl treial, mae nifer o ddedfrydau y gellid eu gosod. Diben cosbau troseddol yw adsefydlu'r diffynnydd yn ogystal â'i (h)atal rhag troseddu eto. Ar y llaw arall, prif ddiben y rhwymedïau sydd ar gael mewn achosion sifil yw diogelu'r dioddefwr.

Mae gan ynadon ddewis o blith nifer o ddedfrydau o ryddhad diamod neu ryddhad amodol, drwy ddirwyon a gorchmynion cymunedol i garchar. Gall dedfrydau o garchar fod yn rhai di-oed neu wedi'u hatal a gellir hefyd ohirio dedfryd tan ddyddiad diweddarach i weld a yw diffynnydd yn cydymffurfio ag un neu fwy o amodau a bennwyd gan y llys. Fel gorchymyn ategol i unrhyw un o'r dedfrydau uchod, gall Ynadon hefyd orchymyn i'r diffynnydd (yn amodol ar ei sefyllfa ariannol) dalu iawndal i'r sawl a niweidiwyd.

Mae gorchymyn cymunedol yn orchymyn llys sy'n cynnwys o leiaf un neu fwy o'r gofynion a ganlyn:

- Gofyniad o ran gwaith di-dâl;
- Gofyniad o ran gweithgarwch;

<sup>16</sup> [http://www.sentencing-guidelines.gov.uk/docs/domestic\\_violence.pdf](http://www.sentencing-guidelines.gov.uk/docs/domestic_violence.pdf)

<sup>17</sup> [http://www.sentencing-guidelines.gov.uk/docs/breach\\_of\\_protective\\_order.pdf](http://www.sentencing-guidelines.gov.uk/docs/breach_of_protective_order.pdf)

- Gofyniad o ran dilyn rhaglen (gan gynnwys rhaglen i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol sy'n arwain at drais yn y cartref);
- Gofyniad o ran gweithgarwch gwaharddedig;
- Gofyniad cyrffiw;
- Gofyniad gwahardd;
- Gofyniad preswyllo;
- Gofyniad o ran triniaeth oherwydd iechyd meddwl;
- Gofyniad o ran adsefydlu mewn perthynas â chyffuriau;
- Gofyniad o ran triniaeth mewn perthynas ag alcohol;
- Gofyniad goruchwyllo;
- Gofyniad o ran canolfan bresenoldeb (os yw'r diffynnydd o dan 25 oed)

## **Rhaglenni i Droseddwr**

Mae pob ardal o'r gwasanaeth prawf yng Nghymru a Lloegr yn rhedeg rhaglen achrededig i droseddwr. Mae'r rhaglenni hyn wedi'u hanelu at ddynton sydd wedi cael eu colfarnu o drosedd, sy'n cam-drin menywod sy'n bartneriaid iddynt, ond ni fydd pob troseddwr yn y categori hwn yn addas ar gyfer y rhaglenni am sawl rheswm. Mae'r rhaglenni yn cynnwys y seilwaith a ganlyn:

- Gwaith asesu a rheoli risg rhwng-asiantaethol, gan gynnwys protocolau cyfnewid gwybodaeth â'r heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill.
- Cyswllt â'r dioddefwyr hysbys a phartneriaid newydd dynion sydd wedi cael lle yn y rhaglen er mwyn sicrhau bod ganddynt ddisgwyliadau realistig, annog gwaith cynllunio diogelwch realistig, rhoi gwybodaeth am y rhaglen a'u gwahodd i gyfrannu at werthuso'r rhaglen.
- Rheoli'r troseddwr yn rhagweithiol gan reolwr goruchwyllo'r troseddwr er mwyn ei ddychwelyd i'r llys yn gyflym os na fydd yn cwblhau'r rhaglen; cydgysylltu â'r heddlu a'r Gweithiwr Diogelwch Menywod; darparu rhai sesiynau strwythuredig unigol.
- Sesiynau gwaith grŵp gyda'r troseddwr.

Ar ddechrau 2006/07, gwnaeth pob Rhaglen Achrededig i'r Rhai sydd wedi cyflawni Trais yn y Cartref yn y System Cyfiawnder Troseddol fodloni safonau ansawdd y Panel Achredu Gwasanaethau Cywirol ac am y tro cyntaf, pennwyd targedau gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr ar gyfer cwblhau rhaglenni.

## Llysoedd Arbenigol ar gyfer Trais yn y Cartref

Wrth gyfeirio at Lys Arbenigol ar gyfer Trais yn y Cartref, rydym yn cyfeirio at ffordd arbenigol o ymdrin ag achosion o drais yn y cartref yn y llysoedd ynadon yn hytrach nag at adeilad neu awdurdodaeth llys. Yn gyffredinol, mae llysoedd troseddol arbenigol ar gyfer trais yn y cartref yn gweithredu naill ai drwy:

- Glystyru: caiff pob achos o drais yn y cartref ei drefnu yn un sesiwn llys i ymdrin â nifer o faterion - newid mechnïaeth, pleon, adolygiadau cyn y treial, adroddiadau cyn-dedfrydu, a dedfrydu. Mae rhai llysoedd clwstwr hefyd yn cynnal treialon mewn sesiynau penodol ar gyfer trais yn y cartref; neu
- Llwybr carlam: rhoddir blaenoriaeth i achosion o drais yn y cartref drwy ddyrannu sesiynau penodol o restr y llys e.e., bydd un o bob 4 sesiwn llys a neilltuwyd ar gyfer trais yn y cartref ar gyfer gwrandawiadau pellach/treialon.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai ffrwyth gwaith cynorthwyol gan asiantaethau statudol a gwirfoddol lleol yw'r llysoedd hyn. Yr hyn sy'n allweddol o blith y rhain yw'r cynghorwyr annibynnol ar drais yn y cartref sydd ar gael i roi'r cymorth hwn. Yn ogystal â'r gwasanaethau eiriolaeth sydd ar gael, ymhlith y partneriaid eraill sy'n rhan o'r gwaith o ddatblygu a chynorthwyo llysoedd arbenigol mae: yr Heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, tai, CPS, y Gwasanaeth Prawf, Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol, Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, meddygon teulu. Argymhellir y ddarpariaeth o staff penodol wedi'i hyfforddi hefyd.

Mae'r saith llys arbenigol cyntaf, Gorllewin Llundain, Caerdydd, Derby, Wolverhampton, Caerffili, Croydon, Leeds, wedi cael eu gwerthuso'n annibynnol<sup>18</sup>. Mae manteision yn cynnwys:

- Gwasanaethau llys a chymorth i ddiodefwyr sy'n fwy effeithiol;
- Rhannu gwybodaeth yn well;
- Mwy o hyder ymhlith y cyhoedd a mwy o ddiodefwyr yn cymryd rhan;
- Rhoi i'r diodefwyr le canolog yn y broses.

Dangosodd cipolwg ar ddata'r CPS a wnaed ym mis Rhagfyr 2005 hefyd y caiff 71% o achosion yn y llysoedd arbenigol eu herlyn yn llwyddiannus o'u cymharu â 59% ar gyfartaledd yn genedlaethol. Ar sail canlyniadau cadarnhaol y gwerthusiadau, datblygodd Gwasanaethau Llysoedd EM, y Swyddfa Gartref a'r CPS raglen ar gyfer dosbarthu'r gwerthusiadau i bob llys ynadon a holl Swyddfeydd y Llywodraeth. Gofynnwyd i lysoedd a phartneriaethau lleol fynegi diddordeb mewn sefydlu llys arbenigol. Defnyddiwyd hunanasesiad fel sail ar gyfer asesu 'parodrwydd' ardaloedd a chydymffurfiaeth â nifer o elfennau. Cafodd yr elfennau eu llunio gan Dasglu o randdeiliaid allweddol yn y maes a'u cynnwys yn y Llawlyfr Adnoddau. Gellir darllen am gefndir Rhaglen y Llysoedd Arbenigol ar gyfer Trais yn y Cartref, y Llawlyfr Adnoddau a thempledi Casglu Data drwy wefan Lleihau Troseddau yn: <http://www.crimereduction.gov.uk/domesticviolence/domesticviolence59.pdf>

O fis Ebrill 2007 bydd 64 o safleoedd yn gweithredu llysoedd arbenigol yng Nghymru a Lloegr.

---

<sup>18</sup> Mae adroddiadau ar gael ar-lein yn <http://www.cps.gov.uk/publications/docs/specialistdvcourts.pdf>; <http://www.cps.gov.uk/publications/docs/dvpilotsites0405.pdf>; a [http://www.cps.gov.uk/publications/docs/eval\\_dv\\_pilots\\_04-05.pdf](http://www.cps.gov.uk/publications/docs/eval_dv_pilots_04-05.pdf)

## **Llysoedd Integredig ar gyfer Trais yn y Cartref**

Ar adeg argraffu, roedd Croydon hanner ffordd drwy ei gynllun beilot sy'n para am flwyddyn o'r Llys Integredig cyntaf ar gyfer Trais yn y Cartref. Caiff y cynllun peilot ei werthuso yn hydref/gaeaf 2007 ar y cyd â phrosiect gwerthuso i fesur effaith darpariaethau Deddf Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr 2004.

Prif nodwedd y llys hwn yw y bydd yr un Barnwr yn gwrandao ar faterion troseddol a theuluol yn ymwneud ag un teulu, a lle mae trais yn y cartref yn codi, lle y bo modd - yn debyg i'r llysoedd sy'n bodoli yn UDA.

Defnyddir y term Llysoedd Integredig ar gyfer Trais yn y Cartref er hwylustod - gwrandewir achosion o dan awdurdodaethau'r Llysoedd Ynadon a'r Llysoedd Achosion Teuluol - nid llys newydd.

Mae egwyddorion a nodau Cynllun Peilot Croydon yn tybio mai dim ond o fewn y ddeddfwriaeth bresennol y caiff camau eu cymryd, ac mai ar sail y ffeithiau ym mhob achos unigol y caiff penderfyniadau barnwrol eu gwneud:

- Un teulu, un Barnwr lle y bo modd ac o dan y gyfraith a phroses deg.
- Caiff yr achos troseddol ei gwblhau, o leiaf nes bod collfarn neu ryddfarn, cyn i'r achos teuluol gael ei wrando gan yr un Barnwr
- Ni ddylai'r broses o wrando'r achos yn y llys integredig achosi oedi i'r rhai dan sylw.
- Bydd rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn helpu i wneud penderfyniadau diogel ac effeithiol.

## **Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 (troseddol)**

Prif fantais y Ddeddf hon yw ei bod ar gael i'r rhai na fuont yn byw gyda'u partner treisgar, ac nad ydynt wedi cael plant gyda hwy. Mae DDA 1997 yn rhwymedi pwysig i ddiodefswyr na allant geisio diogelwch o dan Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 am nad ydynt yn bodloni'r meini prawf caeth ar gyfer ceiswyr fel y'u nodwyd yn y Ddeddf honno (gweler Atodiad A a Rhan I o'r Canllaw hwn).

Gall achos troseddol o dan DDA 1997 arwain at gollfarn a gorchymyn atal. Gall y gorchymyn atal wahardd y troseddwr rhag ymddwyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, ond ni all wneud unrhyw orchmynion mewn perthynas â hawliau eiddo.

**Crëwyd** dwy drosedd gan y Ddeddf: aflonyddu (o dan adran 2); ac ofn trais (o dan adran 4). Trosedd ynadol yw aflonyddu a gellir cynnal treial mewn perthynas â hi mewn llys ynadon neu ar ddiad yn Llys y Goron.

- Adran 2: o dan yr adran hon ni ddylai neb ymddwyn mewn ffordd sy'n gyfystyr ag aflonyddu ar rywun arall (neu rywrai eraill) ac y mae'n ymwybodol, neu y dylai fod yn ymwybodol, ei bod yn gyfystyr ag aflonyddu ar rywun arall (neu rywrai eraill). At ddibenion y Ddeddf hon, dylai'r sawl yr amheuir ei (h)ymddygiad fod yn ymwybodol ei fod/ei bod yn aflonyddu pe bai person rhesymol sy'n meddu ar yr un wybodaeth yn ystyried bod ymddygiad yn aflonyddu. Mae'n rhaid i "batrwm ymddygiad" gynnwys ymddygiad ar o leiaf ddau achlysur. Dim ond yn y llys ynadon y gellir cynnal treial mewn perthynas â'r adran hon.
- Adran 4: o dan yr adran hon mae rhywun y mae ei (h)ymddygiad yn peri i rywun arall ofni, ar o leiaf ddau achlysur, y caiff trais ei ddefnyddio yn ei (h)erbyn yn euog o drosedd, os yw'n ymwybodol, neu os dylai fod yn ymwybodol y bydd hyn yn peri i'r llall ofni hynny ar y ddau achlysur hynny. Ceir prawf tebyg o 'resymoldeb' fel yn adran 2. Gellir cynnal treial mewn perthynas â'r drosedd hon yn y Llys Ynadon neu yn Llys y Goron.

Mae gan yr heddlu y pŵer i arestio unrhyw un y drwgdybir iddo/iddi gyflawni'r naill drosedd uchod neu'r llall a chyfeirio'r achos at y CPS er mwyn iddo benderfynu a ddylid ei erlyn ai peidio.

## **Deddf Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr 2004**

O fis Gorffennaf 2007, mae adran 12 o DTyC 2004 yn diwygio adran 5 o DDA 1997 ac yn mewnosod adran 5A newydd i roi mwy o bwerau i'r llysoedd roi gorchmynion atal wrth ddedfrydu mewn perthynas ag unrhyw drosedd. Bydd hefyd yn rhoi'r hawl i unrhyw un a enwir mewn gorchymyn atal wneud cynrychioliadau mewn llys os gwneir cais i amrywio neu derfynu'r gorchymyn.

Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn galluogi llysoedd i roi gorchmynion atal - am unrhyw

drosedd - pan fydd y diffynnydd wedi sefyll prawf neu wedi cael rhyddfarn. Ar hyn o bryd, dim ond pan fydd troseddwr wedi cael ei gollfarnu o dan adrannau 2 neu 4 o Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu am aflonyddu neu beri i rywun ofni trais yn ei (h)erbyn y mae gorchmynion atal ar gael. Y nod yw ymdrin â'r sefyllfa lle mae achos troseddol yn arwain at ryddfarn ond mae'n amlwg o amgylchiadau'r achos bod angen diogelwch ar y dioddefwr o hyd. Wrth gwrs gall y dioddefwr geisio gorchymyn peidio ag ymyrryd neu waharddeb gan lys sifil. Fodd bynnag, byddai bod yn fwy rhagweithiol nid yn unig yn osgoi oedi a chostau cynyddol i'r gyllideb cymorth cyfreithiol, ond byddai hefyd yn rhoi diogelwch mwy cyson i'r dioddefwr.

Ar ôl rhyddfarn, gallai'r llys wahodd yr erlyniad a'r amddiffyniad i gyflwyno unrhyw dystiolaeth ychwanegol na ellid ei derbyn mewn achosion troseddol ond y gellid ei derbyn mewn achosion sifil. Ar sail y dystiolaeth honno, byddai'r llys yn penderfynu a allai fod angen gorchymyn i ddiogelu'r dioddefwr rhag aflonyddu. Fel arall, gallai'r llys wneud y penderfyniad hwnnw ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd eisoes yn y treial troseddol. (Er enghraifft, efallai y caiff rhywun ei farnu'n ddiuog o niwed corfforol difrifol ond nid oes dadl nad yw wedi curo ar y drws gan weiddi bygythiadau ac nad yw wedi mynnu cael mynediad drwy rym).

Diben y gorchymyn fyddai atal yn hytrach na chosbi – mesur i ddiogelu rhywun rhag aflonyddu. Credwn fod amgylchiadau yn codi lle mae angen diogelwch ar unwaith ar ddioddefwyr hyd yn oed os nad oes digon o dystiolaeth i gollfarnu rhywun. Wrth ystyried a ddylid gwneud gorchymyn bydd y llys yn ystyried yr un cwestiwn ag y byddai llys sifil yn ei ystyried ynghylch cais am orchymyn atal o dan adran 3 o'r Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu; h.y. a oes angen gorchymyn i ddiogelu rhywun rhag aflonyddu? Mater o farn y llys yw hynny.

Wrth ystyried a yw honiadau penodol o gamymddwyn yn y gorffennol wedi cael eu profi, bydd y llysoedd yn cymhwyso prawf sifil. Fodd bynnag, fel y mae cyfraith achosion ar orchmynion tebyg yn ei gwneud yn glir (gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol a gorchmynion gwahardd pobl rhag mynd i gemau pêl-droed) bydd p'un a fydd y safon sifil yn gymwys ai peidio yn dibynnu ar natur yr achos, gan gynnwys difrifoldeb yr ymddygiad honedig a natur unrhyw gosb y gellid ei rhoi.

Mae Deddf TyyC 2004 hefyd yn rhoi hawl i unrhyw un a enwir mewn gorchymyn atal "i gael gwrandawriad", h.y. gwneud cynrychioliadau os gwneir cais i amrywio neu derfynu'r gorchymyn. Bydd Rheolau'r Llys yn gosod dyletswydd ar y llys i hysbysu unrhyw un a enwir yn y gorchymyn atal am gais o'r fath fel y bydd yn cael rhybudd ymlaen llaw am yr hyn sy'n digwydd, ac felly gyfle i ddadlau yn erbyn y cais yn y llys.

## Rhan 4 – Darpariaethau Cysylltiedig Eraill

### Deddf Tai 1996

Mae'r Ddeddf hon yn fodd anuniongyrchol o ddiogelu dioddefwyr trais yn y cartref am ei bod yn dibynnu ar drydydd parti – eu landlord – yn gwneud cais am orchymyn meddiannaeth. Dim ond landlord – neu'n fwy penodol, awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol – a all gymryd camau o dan y Ddeddf hon os tynnir ei sylw at y ffaith bod tenant yn ymddwyn yn dreisgar tuag at denant arall neu os honnir hynny.

Mae'r rhwymedi sifil hwn yn dibynnu hefyd ar y tenant sy'n dioddef trais yn y cartref yn gadael yr eiddo heb fwriad i ddychwelyd yno. Felly, mae'n ffordd syml i'r landlord adfeddiannu eiddo drwy gymryd camau yn erbyn rhywun sydd wedi cam-drin rhywun arall ac sy'n parhau i fyw yn yr eiddo. Nid yw'n galluogi'r dioddefwr trais i aros yn yr eiddo. Ac nid yw'n rhoi unrhyw ddiogelwch ychwaith – ar ffurf gwaharddeb – mewn lleoliad arall.

### Cynlluniau Noddfa

Mae'r Cynllun Noddfa yn ffordd arloesol o atal digartrefedd. Mae'n darparu mesurau diogelwch wedi'u gosod yn broffesiynol sy'n galluogi'r rhai sy'n dioddef trais yn y cartref i aros yn eu cartref eu hunain os bydd yn ddiogel iddynt wneud hynny, os mai dyna yw eu dewis ac os nad yw'r sawl sy'n cyflawni'r trais yn byw yn y cartref hwnnw mwyach.

Nod y canllawiau hyn ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol a Chymunedau a Llywodraeth Leol yw ceisio helpu awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill i sefydlu a rhedeg cynlluniau effeithiol i helpu dioddefwyr trais yn y cartref.

Dim ond ar-lein y mae'r Canllawiau ar gael sef:

<http://www.communities.gov.uk/index.asp?id=1502478gov.uk>

### Statws mewnfudo ac arian cyhoeddus

Mae tua 500 o fenywod y flwyddyn, a fydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig er mwyn priodi gwladolyn Prydeinig ar yr amod na chânt wneud cais am arian cyhoeddus. Mae arian cyhoeddus yn yr achos hwn yn cyfeirio at unrhyw arian o gronfa gymdeithasol, er enghraifft budd-dal tai.

Yn achos dioddefwyr trais yn y cartref, mae Rheolau Mewnfudo yn caniatáu iddynt wneud cais ar eu rhan eu hunain am ganiatâd i aros am gyfnod amhenodol, gyda gofyniad penodol o ran tystiolaeth er mwyn rhoi'r caniatâd hwn. Fodd bynnag, tra ymdrinnir â'r cais, mae eu statws mewnfudo presennol yn eu hatal rhag cael darpariaeth tai. Heb le diogel nac unrhyw fodd i'w cynnal eu hunain, efallai y bydd y menywod hyn yn gorfod dychwelyd adref i gael eu cam-drin eto ac, mewn rhai achosion eithafol, eu lladd.

Mae angen i awdurdodau lleol ystyried y gallai fod angen penodol am ofal neu sylw ar rai

dioddefwyr trais yn y cartref a/neu y gallai fod plant dibynnol ganddynt, a allai eu gwneud yn gymwys i gael cymorth o dan adran 47 o Ddeddf y GIG a Gofal Cymunedol, Deddf Llywodraeth Leol a.2, Deddf Plant 1989 neu ddeddfwriaeth berthnasol arall yn ôl yr achos unigol.

Yn 1999, cyflwynwyd consesiwn fel yr oedd y rhai a oedd wedi gadael eu partner neu eu priod treisgar yn ystod eu cyfnod prawf, ac a allai brofi drwy gollfarn llys neu rywbeth tebyg bod y berthynas wedi dod i ben oherwydd trais yn y cartref yn cael caniatâd i breswyllo yma.

Ym mis Tachwedd 2002, ymestynnwyd y mathau o dystiolaeth y gellid ei defnyddio fel prawf o drais. Er mai gorchymyn, collfarn neu rybudd gan yr heddlu yw'r dystiolaeth orau, gwnaed adroddiad gan feddyg teulu, ymgymieriad i lys, ac adroddiad o bresenoli gan yr heddlu, llythyr gan wasanaethau cymdeithasol, neu lythyr o gefnogaeth gan loches yn dderbyniol hefyd.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd yn nodi'r achosion hyn a'u rhoi ar y trywydd cyflym ac yn ddiweddar, mae ceiswyr wed cael eu heithrio rhag y drefn taliadau newydd, os ydynt yn ddigartref.

Cymerir camau i wella'r broses o wneud cais a chasglu tystiolaeth, gan gynnwys ffurflen safonol i asiantaethau, ymestyn ystyr y term 'noddfa' a'r ffordd y caiff ei ddehongli. Ym mis Ebrill 2007 bydd ffurflen gais<sup>19</sup> newydd gyda nodiadau cyfarwyddyd.

## **Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 - trais yn y cartref ac iechyd**

Mae gan y GIG gyfraniad penodol i'w wneud o ran trais yn y cartref, nid yn unig oherwydd yr effaith ar iechyd dioddefwyr, ond hefyd am mai'r GIG o bosibl fydd y cyswllt cyntaf â gweithwyr proffesiynol sy'n gallu adnabod trais yn y cartref ac ymyrryd.

O ganlyniad, daeth Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol yn Lloegr yn awdurdodau cyfrifol o fewn partneriaethau gostwng troseddau ac anhrefn yn weithredol o 30 Ebrill 2004. (Y ddeddfwriaeth berthnasol yw adran 5(1) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002).

Golyga hyn fod cyfrifoldebau statudol ar Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol bellach i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfrifol eraill i fynd i'r afael â phroblemau o ran trosedd ac anhrefn a chamddefnyddio cyffuriau yn lleol.

## **Deddf Addysg 2002**

Ysgolion all fod y cyntaf i adnabod bod trais yn y teulu a bod disgyblion yn cael eu cam-drin, a gallant gyfeirio achosion at wasanaethau cymdeithasol. Pan fydd ysgol yn amau bod disgybl yn cael ei gam-drin neu mewn perygl o gael ei gam-drin, neu os cred fod problemau

---

<sup>19</sup> yr holiadur presennol ar drais yn y cartref:  
<http://www.ind.homeoffice.gov.uk/6353/11406/dvquestionnaire.pdf>



yn y teulu, dylai ddilyn y gweithdrefnau lleol ar gyfer rhoi gwybod am ei phryderon. Bydd adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn sicrhau bod gan gyrff llywodraethu ac Awdurdodau Addysg Lleol weithdrefnau priodol ar gyfer amddiffyn plant ar waith.

## Atodiad A: Pwy sy'n berson cysylltiedig?

### Mewn perthynas â Gorchmynion Meddiannaeth (adran 62(3) o DCT 1996)

- Maent yn briod â'i gilydd neu wedi bod yn briod â'i gilydd, neu maent yn Bartneriaid Sifil neu maent wedi bod yn Bartneriaid Sifil.
- Maent yn cyd-fyw neu wedi bod yn cyd-fyw (o 5 Rhagfyr 2005 bydd adran 3 o Ddeddf Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr yn diwygio adran 62(1)(a) o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 i gynnwys parau o'r un rhyw sy'n cyd-fyw)
- Maent yn byw neu wedi bod yn byw yn y cartref, am resymau heblaw'r ffaith bod un ohonynt yn gyflogai, yn denant, yn lletywr neu'n preswyllo gyda'r llall.
- Maent yn perthyn i'w gilydd (mae'r diffiniad o "berthynas" wedi cael ei estyn yn Neddf Cyfraith Teulu 1996 i gynnwys cefndyr neu gyfnitherod cyfain)
- Maent wedi cytuno i briodi ei gilydd (p'un a ddaeth y cytundeb hwnnw i ben ai peidio)
- Maent wedi cytuno i bartneriaeth sifil (fel y'i diffinnir gan adran 73 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004)(p'un a yw'r cytundeb hwnnw wedi'i derfynu ai peidio);
- Mewn perthynas ag unrhyw blentyn, maent ill dau yn rhiant neu â chyfrifoldeb rhiant neu wedi bod â chyfrifoldeb rhiant - bydd rhywun yn dod o dan gwmpas y Ddeddf:
  - 1) os mai rhiant y plentyn ydyw; neu
  - 2) Os oes ganddo/ganddi gyfrifoldeb rhiant neu os bu ganddo/ganddi gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.
- Maent yn rhan o'r un achos teuluol (ac eithrio achosion o dan Ran IV DCT 1996).

### Mewn perthynas â Gorchmynion Peidio ag Ymyrryd (DCT 1996)

Os bydd atebudd yn dod o dan unrhyw un o'r categorïau isod gellir gwneud cais:

a) Mewn perthynas â'r ceisydd:

- Priod
- Cyn-briod
- Yn cyd-fyw
- Yn arfer cyd-fyw

- Partner Sifil
- Cyn-bartner Sifil

b) Mewn perthynas â'r ceisydd neu unrhyw ddsbarth o berson yn a):

- Tad
- Mam
- Llystad
- Llysfam
- Mab
- Merch
- Llysfab
- Llysfarch
- Mam-gu
- Tad-cu
- Wŷr
- Wyres
- Brawd
- Chwaer
- Hanner-frawd neu chwaer neu lysfrawd neu chwaer
- Ewythr
- Modryb
- Nith
- Nai
- Cefndyr neu gyfnitherod cyfain

c) Mewn perthynas ag unrhyw un o'r personau yn b):

- Priod
- Cyn-briod
- Yn cyd-fyw
- Yn arfer cyd-fyw
- Partner Sifil

- Cyn-bartner Sifil
- ch) • Rhywun sy'n byw, neu y buont yn byw, yn yr un cartref.
- d) • Rhywun y mae'r ceisydd wedi cytuno i'w briodi neu wedi cytuno i gael partneriaeth sifil â hwy; lle y daeth y cytundeb i ben ond nad oes mwy na 3 blynedd wedi mynd heibio ers i'r cytundeb ddod i ben.
- dd) • Os mai'r ceisydd yw rhiant plentyn neu os oes ganddo/ganddi gyfrifoldeb rhiant dros blentyn, neu unrhyw riant neu berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant.
- e) • Lle y mabwysiadwyd plentyn neu lle y rhyddhawyd plentyn i'w fabwysiadu:
- i) rhiant naturiol, neu riant rhiant naturiol o'r fath y mae cyswllt rhyngddynt a'r plentyn;
  - ii) plentyn neu un o rieni'r plentyn drwy gyfrwng gorchymyn mabwysiadu, neu berson sydd wedi gwneud cais am orchymyn mabwysiadu, neu unrhyw un y rhoddwyd y plentyn iddynt ar unrhyw adeg i'w fabwysiadu.
- Gall unrhyw un yn nosbarth i) wneud cais am orchymyn yn erbyn unrhyw un yn nosbarth ii).
- f) • y parti arall mewn unrhyw achos teuluol.

**Noder:** Mae'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer penderfynu pwy all wneud cais am orchymyn o dan Ran IV o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 yn gymharol eang fel y gellir gweld uchod. Yn gyffredinol, os bydd dioddefwr trais yn y cartref yn perthyn i'r sawl a gyflawnodd y trais, gellir defnyddio'r Ddeddf hon fel rhwymedi. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio'r Ddeddf mewn sefyllfaoedd lle na fu'r dioddefwr erioed yn byw gyda'r sawl a gyflawnodd y trais, lle na fu'n briod â hwy neu lle na chafodd blant gyda hwy.

## Atodiad B: Mesurau arbennig ar gyfer tystion diamddifyn neu dystion sydd wedi cael eu bygylu

Noda'r tabl isod y mesurau arbennig a ddarperir yn Neddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (Deddf CITD).

Mesur arbenigol	Cyfeiriad yn Neddf CITD 1999	Tystion adran 16 (plant ac oedolion diamddifyn)	Tystion adran 17 (bygylu/ofn neu ofid meddwl)
Gosod sgrîn rhwng y tyst a'r cyhuddedig	a.23	Bob amser ar gael	Bob amser ar gael
Rhoi tystiolaeth drwy gyfrwng cyswllt byw	A.24	Bob amser ar gael	Bob amser ar gael
Rhoi tystiolaeth yn breifat	a.25	Bob amser ar gael	Bob amser ar gael
Tynnu perwigiau a gynau	a.26	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Tystiolaeth flaenaf wedi'i recordio ar fideo	a.27	Ar gael yn rhannol – i dystion sy'n blant y mae angen diogelwch arbennig arnynt <b>yn unig</b>	DDIM ar gael
Holi drwy gyfryngwr	a.29	Ar gael yn rhannol – ardaloedd peilot yn unig	DDIM yn berthnasol
Cymhorthion i gyfathrebu	a.30	Bob amser ar gael	DDIM yn berthnasol

Er nad ydynt yn fesurau arbennig ynddynt eu hunain, mae a34-40 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (DCITD) hefyd yn cynnwys pwerau i ddiogelu dioddefwyr a thystion rhag cael eu croesholi gan y cyhuddedig yn gweithredu drosto/drosti ei hun.

Yn benodol, mae a38 o'r Ddeddf hon yn darparu bod yn rhaid i'r llys roi digon o amser i'r cyhuddedig benodi cynrychiolydd at ddibenion croesholi'r dioddefwr. Os na phenodwyd cynrychiolydd erbyn diwedd y cyfnod hwn, mae'n rhaid i'r llys ystyried a ddylai benodi cynrychiolydd i groesholi'r dioddefwr ar ran y cyhuddedig. Dylai tâl am y cynrychiolydd o dan amgylchiadau o'r fath ddod o'r Gronfa Ganolog.

## **Atodiad C: Rhestr termau**

### **Cais gyda rhybudd**

Cais a restrir ar gyfer gwrandawriad gan y llys lle y caiff pob un sy'n rhan o'r achos rhybudd o ddyddiad ac amser y gwrandawriad.

### **Cais penodedig/amhenodedig**

Mae cais penodedig yn gais am iawndal am swm penodol o arian, er enghraifft £1,000. Mae cais amhenodedig am iawndal yn gais am swm amhenodol o arian, er enghraifft heb fod yn fwy na £10,000. Y barnwr sy'n gwrandao'r achos fydd yn pennu'r swm a ddyfernir.

### **Cyflwynydd gwysion**

Rhywun a awdurdodir, 'swyddog y llys' fel arfer sy'n gyfrifol am gyflwyno dogfennau cyfreithiol i bobl - diffynyddion neu atebwyr fel arfer.

### **Cyfnod Talfyredig**

Gellir talfyrru terfynau amser arferol ar gyfer cyflwyno hysbysiad o wrandawriad, yn enwedig mewn ceisiadau am orchymynion meddiannaeth a chaiff yr achos ei restru yn gynt nag arfer. Mae angen o hyd i'r ceisydd ddangos bod yr atebydd wedi cael ei hysbysu am y cais a allai arwain at orchymyn sy'n eu gwahardd o'r cartref teuluol. Ceir awgrym bod y llys yn fwy tebygol o wneud gorchymyn o'r fath os yw wedi cael cyfle i glywed gan y ddau barti.

### **Cynghorydd Trais yn y Cartref Annibynnol**

Mae gwasanaethau cynghorydd yn gysylltiedig â phob llys arbenigol lleol ar gyfer trais yn y cartref (gweler hefyd Llys Arbenigol ar gyfer Trais yn y Cartref) ac yn helpu dioddefwyr drwy broses y llys ac i gysylltu ag amryw asiantaethau statudol a gwirfoddol.

### **Dirmyg llys**

Mae anufuddhau i ddyfarniad neu broses llys, er enghraifft torri gorchymyn peidio ag ymyrryd yn gyfystyr â dirmygu'r llys. Rhybuddir y sawl a wnelo'r gorchymyn ag ef/hi (yr atebydd) y gallai wynebu carchar am ddirmyg os bydd yn anufuddhau i'r gorchymyn, drwy atodi rhybudd o gosb.

### **Ffurflen hawlio (sifil)**

Datganiad ffurfiol ysgrifenedig yn nodi manylion y rhwymedi y mae'r ceisydd yn gwneud cais amdano. Gall y ffurflen hefyd gynnwys manylion y cais, gan gynnwys gwybodaeth gefndir fel dyddiadau a lleoliad digwyddiadau sy'n berthnasol i'r achos. Os na chynhwysir y manylion hyn ar y ffurflen gais gellir eu hanfon i'r llys hyd at 14 diwrnod ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno i'r llys.

## **Gorchmynion Trydydd Parti**

Mae adran 60 o Ran IV o DDCT 1996 yn ymwneud â 'gorchmynion trydydd parti'. Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i'r Arglwydd Ganghellor i alluogi person rhagnodedig, neu gategori o berson, i weithredu ar ran dioddefwyr trais yn y cartref i gael gorchmynion meddiannaeth neu orchmynion peidio ag ymyrryd. Fodd bynnag, nid yw adran 60 mewn grym ar hyn o bryd, ac nid oes unrhyw fwrriad i'w gweithredu yn y dyfodol agos.

## **Gorchymyn diogelu brys**

Gorchymyn a wneir o dan Ddeddf Plant 1989 sy'n rhoi'r hawl i Awdurdod Lleol neu rywun a awdurdodir drwy statud i symud plentyn i lety addas neu ei atal rhag cael ei symud o ysbyty, ac ati, am hyd at 8 diwrnod os bydd achos rhesymol dros gredu bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol oni wneir y gorchymyn. Gall y gorchmynion hyn fod yn gam cyntaf tuag at y Gorchymyn Gofal mwy parhaol (gweler uchod). Gall y llys hefyd wneud gorchymyn i wahardd person perthnasol o'r ty lle mae'r plentyn yn byw neu rhag mynd i mewn i ardal waharddedig benodol o amgylch cartref y plentyn. (Adrannau 44 a 44A o Ddeddf Plant 1989)

## **Gorchymyn gofal**

Gorchymyn o dan Ddeddf Plant 1989 sy'n gosod plentyn o dan ofal Awdurdod Lleol. Dim ond Awdurdod Lleol, neu rywun a awdurdodir gan Ysgrifennydd Gwladol a all wneud cais. Dim ond pan fydd yn fodlon bod plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol y gall y llys wneud gorchymyn gofal. Weithiau gall hyn ddigwydd am fod y rhieni wedi gwneud rhywbeth i niweidio eu plentyn neu wedi caniatáu i rywun arall wneud hyn. Mae hyn yn cynnwys achosi niwed corfforol neu gam-drin yn rhywiol. Mae niwed corfforol a cham-drin yn rhywiol yn achosi niwed emosiynol hefyd. (Adran 31 o Ddeddf Plant 1989)

## **Gorchymyn peidio ag ymyrryd**

Gorchymyn o dan Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 yn atal rhywun rhag ymyrryd â 'pherson cysylltiedig' neu blentyn perthnasol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu rhag gwneud fel arall yr hyn y mae'r llys yn gorchymyn iddo/iddi beidio â'i wneud.

## **Gwaharddeb**

Rhwymedi ar ffurf gorchymyn llys wedi'i gyfeirio at berson penodol sydd naill ai'n ei (g)wahardd rhag cyflawni, neu barhau i gyflawni, gweithred benodol, neu'n gorchymyn iddo/iddi gyflawni gweithred benodol.

## **Gwasanaeth Erllyn y Goron**

Awdurdod erlyn cyhoeddus yw'r CPS, sy'n annibynnol ar yr heddlu ond sy'n gweithio gyda hwy fel rhan o'r tîm erlyn. Mae'r CPS yn cyhuddo pobl yng Nghymru a Lloegr o drosedd ac yn eu herlyn. Mae hefyd yn rhoi cyngor i'r heddlu ar erlyniadau posibl; yn paratoi achosion ar gyfer y llys; yn erlyn achosion yn y llysoedd ynadon a Llysoedd y Goron; ac yn rhoi cyfarwyddyd i fargyfreithwyr erlyn achosion yn Llys y Goron a'r uchel lysoedd.

## **Gweithgarwch Cyswilt (Deddf Plant a Mabwysiadu 2006)**

Sesiwn wybodaeth, rhaglen, dosbarth, sesiwn gynghori neu gyfarwyddo yw gweithgarwch cyswllt, neu unrhyw weithgarwch arall a all helpu rhywun i feithrin, cynnal neu wella cyswllt â phlentyn. Mae hwn yn ychwanegiad newydd i helpu rhieni pan fyddant wedi gwahanu neu wedi ysgaru ac na allant gytuno ar drefniadau ar gyfer eu plant. Gall y rhieni gyfeirio eu hanghydfod at lys teulu i wneud penderfyniad. Mae'r rhan fwyaf o achosion llys sy'n ymwneud â phlant yn cynnwys anghydfod preifat rhwng rhieni ynglŷn â threfniadau preswyl a chyswllt. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'cadwraeth' neu 'hawl i weld'. (Adran 8 o Ddeddf Plant 1989 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006.)

### **Gwrandawriad traddodi (sifil)**

Dull o orfodi dyfarniad drwy gael gorchymyn i draddodi rhywun i'r carchar. Gofynnir amdano fel arfer pan fydd y person hwnnw wedi dirmygu'r llys, er enghraifft, drwy anufuddhau i orchymyn gan y llys.

### **Hawl i arestio**

Hawl a atodir i orchymyn peidio ag ymyrryd [tan 1 Gorffennaf 2007] neu orchymyn meddiannaeth sy'n galluogi'r heddlu i arestio, heb warant, unrhyw un y mae ganddynt achos rhesymol dros ddrwgdybio ei fod/bod yn torri'r gorchymyn y mae'r hawl wedi'i hatodi iddo, er nad yw o reidrwydd yn cyflawni trosedd. Nid yw'n orfodol atodi hawl i arestio i orchymyn peidio ag ymyrryd neu orchymyn meddiannaeth ac o 1 Gorffennaf 2007 ni chaiff hawl i arestio ei atodi i orchymyn peidio ag ymyrryd mwyach. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'n rhaid i'r llys atodi hawl i arestio os ymddengys fod yr atebydd wedi defnyddio trais neu wedi bygwth ei ddefnyddio yn erbyn y ceisydd neu blentyn perthnasol, oni bai bod y llys yn fodlon o dan holl amgylchiadau'r achos y caiff y ceisydd neu'r plentyn eu diogelu'n ddigonol. Lle yr atodir hawl i arestio, y fantais yw na fydd yn rhaid i'r ceisydd fynd i'r llys i ofyn am i'r atebydd gael ei (h)arestio gan fod yr heddlu yn gallu ei (h)arestio heb warant?

### **Heb rybudd ('unochrog' yn y gorffennol)**

Cais a wneir gan un parti i ddechrau achos llys yn absenoldeb y llall (y gwneir cais amdano yn aml o dan DDCT 1996 oherwydd natur frys y cais i ddiogelu'r ceisydd).

### **Llys Arbenigol ar gyfer Trais yn y Cartref**

Lleoliad arbenigol mewn llys ynadon presennol sy'n rhoi hyfforddiant penodol i'r farnwriaeth a staff fel ei gilydd gyda chymorth effeithiol i ddioddefwyr. Bydd 64 o safleoedd o'r fath yng Nghymru a Lloegr erbyn mis Ebrill 2007.



## **Llys Integredig ar gyfer Trais yn y Cartref**

Mae hwn yn seiliedig ar "un barnwr i un teulu" yn gwrandio achosion troseddol a theuluol, gan geisio osgoi sefyllfa lle mae pobl yn gorfod adrodd eu hanes fwy nag unwaith. Ceir y cynllun peilot cyntaf o lys integredig yn Llys Ynadon Croydon [a ddechreuodd ym mis Hydref 2006].

## **Mechnïaeth**

Pan fydd yr heddlu neu lys yn rhyddhau diffynnydd tan ddyddiad, amser a lle penodol. Gellir gosod amodau ar rywun a ryddheir ar fechnïaeth, er enghraifft peidio â chyflawni troseddau neu gadw draw oddi wrth/allan o ardal benodol.

## **Meichiau**

Rhywun sy'n gwarantu taliad neu gyflawniad os bydd rhywun arall yn methu â thalu neu gyflawni rhywbeth. Gall cwmni bond "sy'n cyflwyno bond" ar ran gwarcheidwad, gweinyddydd neu gontractwr adeiladu roi meichiau. Mae'r rhan fwyaf o drefniadau meichiau yn ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n gwneud cais am y meichiau (sy'n gofyn am daliad) geisio yn gyntaf gasglu neu sicrhau cyflawniad gan y person neu'r endid cyfrifol.

## **Mesurau / Cyfleusterau Arbennig**

Pwerau neu gyfleusterau ychwanegol gyda'r nod o ddiogelu dioddefwyr. Gall y rhain gynnwys ystafelloedd aros ar wahân, rhoi tystiolaeth o'r tu ôl i sgrîn neu drwy gyfrwng cyswllt fideo, ac ati yn dibynnu ar y math o lys. Cofiwch holi beth sydd ar gael.

## **“Neillfordd”**

Gall gyfeirio at achos "y gellid cynnal treial ohono'r neillfordd" neu "drosedd neillfordd". Golyga hyn y gellir cynnal treial yn y llys ynadon neu yn Llys y Goron. Gall y Llys Ynadon gyfeirio achos i'w wrando yn Llys y Goron, gall y CPS ofyn am i'r achos gael ei wrando yn Llys y Goron neu gall y diffynnydd ddewis sefyll prawf yn Llys y Goron.

## **Rhaglenni i Droseddwyr**

Mae rhaglenni i droseddwyr wedi'u hanelu'n bennaf at helpu dynion i newid eu hymddygiad a meithrin cydberthnasau parchus lle nad ydynt yn cam-drin menywod. Gan mai dynion sy'n cyflawni trais gan mwyaf, yn ôl yr ystadegau, mae'r rhan fwyaf o raglenni i droseddwyr yn gweithio gyda dynion. Mae rhaglenni fel arfer yn cynnwys grwpiau bach o 8-15 o ddynion sydd wedi bod yn dreisgar yn eu perthynas gyfredol neu mewn perthynas flaenorol.

## **Remand**

Traddodi'r cyhuddedig i'r ddalfa neu ei r(h)yddhau ar fechnïaeth. Os cedwir y sawl a ddrwgdybir yn y ddalfa caiff ei (h)anfon i'r carchar nes ei (h)ymddangosiad nesaf gerbron y llys.

## **Rhwymo (i gadw'r heddwch)**

Gellir gwneud 'gorchmynion rhwymo' ar gais (neu 'gŵyn') neu gan y llys ei hun. Mae'r sawl a rwymir yn addo ymddwyn yn dda i bob diben ac yn cytuno (drwy lofnodi dogfen) i gadw'r

heddwch am gyfnod penodol. Os bydd yn methu â gwneud hynny gellir gorchymyn iddo/iddi dalu rhan o swm o arian neu'r cyfan a nodwyd gan y llys yn y gorchymyn gwreiddiol.-

## **Rhybudd o gosb**

Rhybudd y gellir ei atodi i orchmynion sifil yn rhybuddio parti neu bartïon os na fyddant yn ufuddhau i'r gorchymyn, neu ddarpariaethau penodol yn y gorchymyn, y byddant yn dirmygu'r llys ac y gellir eu hanfon i'r carchar. Mae rhybuddion o gosb yn orfodol ar orchmynion peidio ag ymyrryd, ond yn ddewisol mewn perthynas â gorchmynion eraill. Os bydd ceisydd (dioddefwr) yn teimlo bod yr atebydd (y sawl sydd wedi cyflawni'r drosedd) yn debygol o anwybyddu neu dorri'r rhybudd o gosb, mae'n rhaid i'r ceisydd wneud cais i'r llys ei hun i gael hawl i arestio wedi'i hatodi er mwyn i'r atebydd gael ei arestio/ harestio a'i draddodi/thraddodi i'r llys.

## **Rhyddhad amodol**

Gellir rhyddhau troseddwr yn amodol am hyd at dair blynedd. Yr amod yw na fydd yn cyflawni unrhyw drosedd arall yn ystod y cyfnod hwnnw. Wedi hynny daw'r rhyddhad i ben. Os cyflawnir trosedd newydd yn ystod y cyfnod a bennir gan y llys, gellir dedfrydu'r troseddwr o'r newydd am y drosedd y gwnaed y rhyddhad amodol ar ei chyfer. Yna gall y troseddwr wynebu dedfryd am ddau fater, yr hen drosedd a'r drosedd newydd. Collfarn yw rhyddhad amodol.

## **Trosedd dditiadwy yn unig**

Trosedd y gellir ei rhoi ar brawf drwy dditiad, sy'n golygu gan reithgor yn Llys y Goron. Mae'r rhan fwyaf o droseddau difrifol (llofruddiaeth, trais) yn dditiadwy yn unig. Fodd bynnag, bydd yr achosion hyn i gyd yn dechrau yn y llys ynadon a chânt eu cyfeirio at Lys y Goron am Wrandawriad Rhagarweiniol ar unwaith.

## **Trosedd ynadol**

Trosedd na ellir ond cynnal treial diannod ar er chyfer, sy'n golygu treial gerbron ynadon yn hytrach na rheithgor. Mae'r rhan fwyaf o fân droseddau (er enghraifft ymosodiad cyffredin a bod yn feddw ac yn afreolus) yn droseddau ynadol.

## **Unochrog – gweler Heb rybudd**

## Atodiad Ch: Ffynonellau cyfeirio a darllen pellach

### Protocol Datgelu'r Heddlu a'r Teulu Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu:

- Protocol Memorandwm Eglurhaol (fel y'i defnyddiwyd yn y cynlluniau peilot gan gynnwys gweithdrefn a ffurflenni) <http://www.dca.gov.uk/family/metpol-expmem.pdf>;
- Fersiwn Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitaidd <http://www.dca.gov.uk/family/metpol-protocol.pdf>;
- Fersiwn Cylchdaith Gogledd Lloegr (ar gyfer ardaloedd y tu allan i Lundain/Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitaidd) [anwybyddwch y cyfeiriad fod y ddogfen yn cynnwys 90 o dudalennau – dim ond 11 o dudalennau sydd] <http://www.dca.gov.uk/family/metpol-northerncircuit.pdf>;
- Ffurflenni Ateb a Chais Safonol - Atodiadau B a C: <http://www.dca.gov.uk/family/stdreq-form-annexb.doc>  
<http://www.dca.gov.uk/family/stdpol-replyform-annexc.doc>
- Adroddiad Gwerthuso (mae nifer fach o gopiâu caled ar gael o hyd gan Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi): <http://www.dca.gov.uk/family/police-info-family-proceedings.pdf>

Er mwyn gweld y dogfennau hyn ar wefan Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi cliciwch ar: [http://www.hmcourts-service.gov.uk/infoabout/family\\_law/index.htm](http://www.hmcourts-service.gov.uk/infoabout/family_law/index.htm)

Ewch i'r adran sy'n dweud 'Rhan IV o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996' ac mae cyswllt bellach yn y blwch ar yr ochr dde 'Gwybodaeth ychwanegol' o'r enw 'Canllawiau a Gwybodaeth Trais' – a fydd yn mynd â chi i safle'r Adran Materion Cyfansoddiadol.

**Broken Rainbow:** Cymorth i bobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol sy'n dioddef trais yn y cartref.

**Llinell Gymorth** 08452 60 44 60

Dydd Llun i ddydd Gwener 9am–1pm a 2pm–5pm gyda staff sy'n bobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol

<http://www.broken-rainbow.org.uk/>

### CAADA – Co-ordinated Action Against Domestic Abuse

[CRARG gynt <http://www.crarg.org.uk/index.html>]

[info@caada.org.uk](mailto:info@caada.org.uk)

Ffôn: 01749 812968

Gweithio i greu ymateb cyson, proffesiynol ac effeithiol i bawb sydd wedi dioddef trais yn y cartref yn enwedig y rhai mewn perygl mawr, drwy ddarparu gwasanaethau yn uniongyrchol i brosiectau eiriolaeth, eu partneriaid amlasiantaethol lleol a hefyd drwy waith gydag arianwyr, cynghorwyr polisi a'r llywodraeth.

Canllawiau Swyddfa'r Cabinet ar gyfer ymdrin â staff sy'n dioddef trais yn y cartref

[http://www.civilservice.gov.uk/management/domestic\\_violence/publications/doc/empl\\_leaf\\_21oct04.doc](http://www.civilservice.gov.uk/management/domestic_violence/publications/doc/empl_leaf_21oct04.doc)

[http://www.civilservice.gov.uk/management/domestic\\_violence/publications/doc/domestic-violence\\_lm\\_leaf.doc](http://www.civilservice.gov.uk/management/domestic_violence/publications/doc/domestic-violence_lm_leaf.doc)

Gwefan Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol: '[www.clsdirect.org.uk](http://www.clsdirect.org.uk). Gall y wefan helpu rhywun i gyfrifo a yw'n gymwys ac mae'n cynnwys taflenni gan gynnwys un o'r enw "Trais, Camdriniaeth ac aflonyddu domestig" yn ogystal ag eraill ar bynciau cysylltiedig megis ysgariad a gwahanu.

**Cynghrair Corfforaethol yn erbyn Trais yn y Cartref:** grŵp o gwmnïau a sefydliadau blaengar sy'n gweithio'n unigol ac ar y cyd i fynd i'r afael ag effaith trais yn y cartref yn y gweithle. <http://www.corporateallianceuk.com/home.asp>

Ffioedd Llys: Oes rhaid i chi eu talu? – un o daflenni'r Gwasanaeth Llys. EX 160 - ffurflen gais i gael eithriad rhag talu'r ffi neu gael y ffi wedi'i thalu.

(nodyn) [http://www.hmcourts-service.gov.uk/HMCSCourtFinder/GetLeaflet.do?court\\_leaflets\\_id=172](http://www.hmcourts-service.gov.uk/HMCSCourtFinder/GetLeaflet.do?court_leaflets_id=172)

(cais) [http://www.hmcourts-service.gov.uk/HMCSCourtFinder/GetForm.do?court\\_forms\\_id=168](http://www.hmcourts-service.gov.uk/HMCSCourtFinder/GetForm.do?court_forms_id=168)

Gwefan Gwasanaeth Eryl y Goron

[www.cps.gov.uk](http://www.cps.gov.uk)

- Gwasanaeth Eryl y Goron (Chwefror 2005) Llyfryn *Polisi ar gyfer Eryl Achosion o Drais yn y Cartref* <http://www.cps.gov.uk/publications/docs/DomesticViolencePolicy.pdf>
- *How Prosecution Decisions are Reached* [http://www.dti.gov.uk/training\\_development/inspired\\_leadership\\_report.pdf](http://www.dti.gov.uk/training_development/inspired_leadership_report.pdf)

Dealing with cases of Forced Marriage – Guidance for Education Professionals

<http://www.fco.gov.uk/Files/kfile/Dealing%20with%20cases%20of%20Forced%20Marriages.pdf>

Dealing with cases of Forced Marriage – Guidance for Police.

<http://www.fco.gov.uk/Files/kfile/InteractiveForcedMarriage091106.pdf>

Gwefan yr Adran Materion Cyfansoddiadol

[www.dca.gov.uk](http://www.dca.gov.uk)

**Yr Adran Iechyd, Responding to Domestic Violence a handbook for health professionals, 2005:** <http://www.dh.gov.uk/assetRoot/04/12/66/19/04126619.pdf>

*Domestic Violence Law and Practice*, (Pumed Argraffiad 2006) [Barnwr Rhanbarth] Roger Bird [ISBN: 0 85308 974 4]

**DYN – Llinell gymorth Trais yn y Cartref i ddynion yng Nghymru**

[www.dynproject.org/](http://www.dynproject.org/)

**029 2048 9500 – Caerdydd yn unig / 0808 801 0321 – y tu allan i Gaerdydd**

Mae'r Cynllun Dyn yn cynnig gwasanaeth cynllunio diogelwch ac eiriolaeth cyfrinachol i ddynion sydd wedi profi trais yn y cartref. Mae'r Cynllun yn gweithio gyda dynion hoyw, deurywiol, trawsrywiol a heterorywiol yng Nghaerdydd a ledled Cymru a gall gynnig amrywiaeth o wasanaethau ac adnoddau i helpu dynion mewn cydberthnasau treisgar. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a sut i gysylltu â nifer o wasanaethau cymorth.

**Uned Priodasau Dan Orfod**

**cysylltwch 0207 008 0151**

[www.fco.gov.uk](http://www.fco.gov.uk)

Mae'r Undeb Priodasau Dan Orfod yn bwynt cyswllt ar gyfer cyngor cyfrinachol a chymorth i'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gorfodi i briodi dramor.

Gwefan Gwasanaeth Llysoedd EM – [www.hmcourts-service.gov.uk](http://www.hmcourts-service.gov.uk)

Gwefan y Swyddfa Gartref

[www.homeoffice.gov.uk](http://www.homeoffice.gov.uk)

**Taflen: *You don't have to live in fear ...***

<http://www.crimereduction.gov.uk/isp21.pdf>

**IMKAAN**

<http://www.imkaan.org.uk/pub/index.php?id=8>

**Datganiad Cenhadaeth: Rhoi eiriolaeth strategol a chymorth sefydliadol wedi'i dargedu i lochesau sy'n gwasanaethu anghenion menywod a phlant Asiaidd sy'n dioddef trais yn y cartref.**

Gwasanaeth Cyngor ar Fewnfudo - 020 7357 6917 /

[www.iasuk.org](http://www.iasuk.org)

*Family Law Protocol* Cymdeithas y Cyfreithwyr 2<sup>il</sup> argraffiad

<http://www.lawsociety.org.uk/search/view=query.law#>

Gwefan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

[www.legalservices.gov.uk](http://www.legalservices.gov.uk)

- Cyfrif [http://www.legalservices.gov.uk/civil/whatis\\_calculator.asp](http://www.legalservices.gov.uk/civil/whatis_calculator.asp) cymhwysedd
- Cod Ariannu [www.legalservices.gov.uk/civil/guidance/funding\\_code.asp](http://www.legalservices.gov.uk/civil/guidance/funding_code.asp)

**Llinell Gyngor i Ddnyon** [www.mensadviceline.org.uk](http://www.mensadviceline.org.uk).  
**801 0327**

**Llinell Gymorth 0808**

**National Delivery Plan and Report**

<http://www.crimereduction.gov.uk/domesticviolence/domesticviolence51.pdf>

**Llinell gymorth Genedlaethol Trais yn y Cartref**  
**Gweler hefyd gwefannau WAFE, a Refuge**

**0808 2000 247**

Fforwm Rhanbarthol Gogledd Iwerddon ar Drais yn y Cartref, Ending the Pain and Healing the Hurt – *A Practical Guide for Faith Communities Responding to Domestic Violence*, Hydref 1999 [Cymorth i Fenywod Gogledd Iwerddon]

**Strategaeth Gogledd Iwerddon [Chwefror 2006]**  
**Tackling Violence at home**

[www.nio.gov.uk](http://www.nio.gov.uk)

**Cymorth i Fenywod Gogledd Iwerddon / Llinell gymorth 0800 917 1414**  
[www.niwaf.org](http://www.niwaf.org)

**Refuge**

[www.refuge.gov.uk](http://www.refuge.gov.uk)

Cyngor y Ffoaduriaid 020 7346 6777  
[www.refugeecouncil.org.uk](http://www.refugeecouncil.org.uk)

**Resolution - first for family law**  
**Sef Cymdeithas y Cyfreithwyr Cyfraith Teulu gynt**  
**Llinell uniongyrchol: 01689 899 585**

[www.resolution.org.uk](http://www.resolution.org.uk)

**RESPECT**

0845 122 8609

[www.respect.uk.net](http://www.respect.uk.net)

Respect yw cymdeithas aelodaeth y DU ar gyfer rhaglenni i'r rhai sydd wedi cyflawni trais yn y cartref a gwasanaethau cymorth cysylltiedig Canolbwyntir yn benodol ar wneud y rhai sy'n dioddef trais yn y cartref yn fwy diogel drwy hyrwyddo ymyriadau effeithiol â'r rhai sy'n cyflawni'r trais.

**Rights of Women**

<http://www.rightsofwomen.org.uk/>

Ffurflen archebu'r llawlyfr ar gael gwaharddeb  
[http://www.rightsofwomen.org.uk/pdfs/dv\\_2nd\\_ed.pdf](http://www.rightsofwomen.org.uk/pdfs/dv_2nd_ed.pdf)

- Llinell Cyngor Cyfreithiol am Ddim i fenywod gan fenywod: 020 7251 6577  
Ar agor ar ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau 2–4pm / 7–9pm: dydd Gwener 12-2pm
- Llinell Cyngor Cyfreithiol am Ddim ar Drais Rhywiol i fenywod gan fenywod: 020 7251 8887  
Ar agor ar ddydd Llun 11am-1pm a dydd Mawrth 10am-12pm.

**Southall Black Sisters**  
Ffôn: 020 8571 9595

[www.southallblacksisters.org.uk/](http://www.southallblacksisters.org.uk/)  
[southallblacksisters@btconnect.com](mailto:southallblacksisters@btconnect.com)

Gwefan Cymorth i Ddiodefwyr  
[www.victimsupport.org.uk](http://www.victimsupport.org.uk)

Taflen Gwasanaeth Tystion Cymorth i Ddiodefwyr, *Going to Court*

[http://www.victimsupport.org.uk/vs\\_england\\_wales/coping\\_with\\_crime/criminal\\_justice\\_system/going\\_to\\_court\\_leaflet.pdf](http://www.victimsupport.org.uk/vs_england_wales/coping_with_crime/criminal_justice_system/going_to_court_leaflet.pdf)

### **Cymorth i Fenywod Cymru / Llinell Gymorth Cam-drin yn y Cartref**

**Llinell gymorth : 808 8010 800**

**[www.welshwomensaid.org](http://www.welshwomensaid.org)**

Cymorth i Fenywod Cymru yw prif ddarparwr gwasanaethau sydd wedi'u hanelu'n benodol at helpu menywod a phlant diamddiffyn sy'n dioddef trais yn y cartref ac sy'n cael eu cam-drin yn y cartref yng Nghymru. Cymorth i Fenywod Cymru yw'r sefydliad mantell cenedlaethol gydag aelodaeth o 35 o Grwpiau Cymorth i Fenywod lleol ledled Cymru.

### **Cymorth i Fenywod**

[www.womensaid.org.uk](http://www.womensaid.org.uk)

Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y llinell gymorth, llochesau a chysylltiadau i archebu taflenni.

Pobl ifanc ac oedolion diamddiffyn sy'n wynebu priodi dan orfod. Canllawiau ymarferol i weithwyr cymdeithasol:

<http://www.fco.gov.uk/Files/kfile/Forced%20Marriage%20Guidelines%20for%20social%20workers.pdf>